# Trafod y Cymoedd: Rhaglen Ymgysylltu

## Adroddiad terfynol

Comisiynwyd wrth gwmni ymchwil **Arad**
gan **Lywodraeth Cymru**

*Gorffennaf 2017*

Arad Research
8 Rhodfa Columbus
Plas Brigantîn
Caerdydd CF10 4SD
029 2044 0552
www.arad.wales

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 3**

1.1 Crynodeb o'r Dull Ymgysylltu ..... 3

1.2 Yr adroddiad hwn ..... 8

**2. Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni ..... 9**

2.1 Dim digon o swyddi ..... 9

2.2 Creu swyddi ..... 12

2.3 Cymorth ar gyfer busnesau ..... 13

2.4 Mwy o help i gael swydd ..... 15

**3. Gwell gwasanaethau cyhoeddus ..... 19**

3.1 Mae angen i wasanaethau cyhoeddus gael eu cydgysylltu'n well ..... 19

3.2 Cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer cymunedau ..... 20

3.3 Gwasanaethau iechyd ..... 22

3.4 Gwasanaethau iechyd meddwl ..... 23

3.5 Ansawdd, argaeledd a fforddiadwyedd tai ..... 24

3.6 Trafnidiaeth gyhoeddus a theithio ..... 25

**4. Fy nghymuned leol ..... 29**

4.1 Tybiaethau ac ymdeimlad o falchder ..... 29

4.2 Manteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol ..... 32

4.3 Cynyddu twristiaeth ..... 34

4.4 Mae angen ailbennu ffocws canol trefi ..... 35

4.5 Ynni adnewyddadwy ..... 37

4.6 Cynnal a chadw'r amgylchedd ffisegol yn well ..... 37

**5. Crynodeb ..... 40**

# 1. Cyflwyniad

Sefydlwyd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru gyda'r nod o ddatblygu dull ffres er mwyn gwella ffyniant yng Nghymoedd de Cymru. Mae wedi casglu tystiolaeth yn ystod ei gyfarfodydd ac o weithgarwch ymgysylltu arall. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2017, ac mae'r canfyddiadau hyn wedi cyfrannu at ddatblygu cynllun lefel uchel y tasglu, *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*, y mae bellach ar gael.

## 1.1 Crynodeb o'r Dull Ymgysylltu

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Ymchwil Arad i adrodd am y digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus ac i hwyluso gweithgareddau ymgysylltu pellach er mwyn cyfrannu at waith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru[1]. Cynhaliwyd digwyddiadau ar draws Cymoedd De Cymru yn ystod y gwanwyn 2017:

- Gweithgarwch ymgysylltu a drefnwyd ac a hwyluswyd gan Lywodraeth Cymru:
    - Digwyddiadau cyhoeddus – pedwar digwyddiad cyhoeddus lle y byddai modd i'r cyhoedd leisio'u barn i aelodau'r tasglu.
    - Cyfarfodydd thema – yn ystod y digwyddiadau cyhoeddus, daeth yn amlwg bod angen cynnal trafodaeth bellach am faterion a chynulleidfaoedd, a threfnwyd saith cyfarfod thema er mwyn canolbwyntio ar faterion penodol.
    - Sesiynau ymgysylltu gyda staff Llywodraeth Cymru – chwe thrafodaeth grŵp a fforwm trafod ar-lein.
    - Gweithgarwch cyfathrebu a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys negeseuon wedi'u postio ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Facebook a Twitter Trafod y Cymoedd, a gwahoddiad i'r cyhoedd gysylltu trwy anfon neges e-bost uniongyrchol.
- Gwaith ymchwil atodol a gynhaliwyd gan Arad:
    - Deg grŵp ffocws gyda phreswylwyr (naw grŵp) a busnesau (un grŵp) yng Nghymoedd de Cymru a dau grŵp ffocws (un gyda phreswylwyr, un gyda busnesau) y tu allan i Gymoedd de Cymru.
    - Arolwg ar-lein ymhlith pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymoedd de Cymru.
- Roedd 520 o unigolion wedi cymryd rhan mewn ymarferion ymgysylltu wyneb yn wyneb ac roedd 777 pellach wedi rhannu eu safbwyntiau trwy gyfrwng yr arolwg ar-lein.

Mae'r holl ffynonellau hyn wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn, a rhoddir disgrifiad byr o bob un ohonynt isod.

### 1.1.1 Digwyddiadau cyhoeddus, cyfarfodydd thema a sesiynau ymgysylltu â staff mewnol Llywodraeth Cymru

**Cynhaliodd tîm Trafod y Cymoedd Llywodraeth Cymru bedwar cyfarfod cyhoeddus.** Rhoddodd y cyfarfodydd cyhoeddus hyn yn Aberpennar (cynulleidfa o 62), Merthyr Tudful

[1] http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-Valleys/?lang=cy

(50), Y Cymer (43) a Banwen (40) y cyfle i aelodau'r cyhoedd ymgysylltu ag aelodau amrywiol Tasglu'r Cymoedd a thrafod y prif flaenoriaethau er mwyn gwella ffyniant yn y Cymoedd.  Yn ogystal, buont yn gyfle i aelodau'r cyhoedd ddysgu am waith Tasglu'r Cymoedd.  Cafodd Arad recordiadau sain o'r cyfarfodydd cyhoeddus hyn, ac aeth at i ddadansoddi'r recordiadau er mwyn nodi themâu a blaenoriaethau allweddol a godwyd gan aelodau'r cyhoedd.  Yn ogystal, roedd rhai o aelodau'r cyhoedd wedi mynegi sylwadau ar daflenni adborth ar ddiwedd y cyfarfodydd cyhoeddus hyn, a rannwyd gydag Arad. (Cyfanswm y gynulleidfa oedd tua 195).

**Cynhaliodd tîm Trafod y Cymoedd Llywodraeth Cymru chwe chyfarfod thema.** Cafodd Arad recordiadau sain o'r cyfarfodydd cyhoeddus hyn, ac aeth ati i ddadansoddi'r recordiadau er mwyn nodi themâu a blaenoriaethau allweddol a godwyd gan y cyfranogwyr (Cyfanswm o 171 yn y gynulleidfa).

- Canolfan Busnes a Thechnoleg Tredomen yn Ystradmynach.
  Cynulleidfa:  Busnesau o gyngor bwrdeistref sirol Caerffili (48 o gyfranogwyr).
- Dechrau'n Deg yng Nglyn-nedd.
  Cynulleidfa:  Rhieni a staff grŵp Dechrau'n deg Glyn-nedd (16 o gyfranogwyr).
- Cymdeithas Tai Bron Afon, Pont-y-pŵl.
  Cynulleidfa:  Preswylwyr Bron Afon (33 o gyfranogwyr).
- Ysgol Cwm Rhymni, ger y Coed-duon.
  Cynulleidfa:  Staff yr adran cymwysterau galwedigaethol a disgyblion o flynyddoedd 10 -13 (34 o gyfranogwyr).
- Ysgol Gymunedol Glyn Rhedynog, Maerdy.
  Cynulleidfa:  Rhieni, staff a disgyblion (37 o gyfranogwyr).
- Grŵp a gynullwyd gan Anabledd Cymru.
  Cynulleidfa:  Aelodau, rhanddeiliaid a phartneriaid (5 o gyfranogwyr).
- Brecwast busnes ym Mhrifysgol De Cymru (PDC), Trefforest.
  Cynulleidfa:  Busnesau, rhanddeiliaid, darparwyr hyfforddiant ar draws Cymoedd De Cymru a chynrychiolwyr ysgol fusnes PDC (46 o gyfranogwyr).

**Cynhaliodd tîm Trafod y Cymoedd Llywodraeth Cymru chwe sesiwn ymgysylltu gyda staff Llywodraeth Cymru sy'n byw a/neu'n gweithio yn y Cymoedd.**  Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i staff Llywodraeth Cymru fynegi eu safbwyntiau nhw am y prif flaenoriaethau er mwyn gwella ffyniant yn y Cymoedd, yn ogystal â trafod eu profiadau nhw o fyw yn y Cymoedd, teithio i'r gwaith a manteisio ar wasanaethau trafnidiaeth ac ati. Cafodd Arad recordiadau sain a nodiadau o'r sesiynau ymgysylltu â staff hyn, gan nodi blaenoriaethau a themâu allweddol a godwyd gan staff Llywodraeth Cymru (cyfanswm o 83 yn y gynulleidfa).  Sefydlwyd fforwm ar-lein ar gyfer staff a rhannwyd sylwadau o hwn gydag Arad hefyd.

### 1.1.2 Grwpiau ffocws

**Cynhaliodd Arad ddeg grŵp ffocws – saith grŵp o breswylwyr Cymoedd de Cymru; un grŵp o berchnogion a rheolwyr busnesau yn y Cymoedd; un grŵp o breswylwyr sy'n byw y tu allan i'r Cymoedd ac un grŵp o berchnogion a rheolwyr busnesau wedi'u lleoli y tu allan i'r Cymoedd.**  (Cyfanswm o 71 o gyfranogwyr yn y grwpiau).

Cynullwyd y grwpiau ffocws er mwyn galluogi trafodaeth eang am flaenoriaethau pobl ar gyfer eu hardal leol.  Cynhaliwyd y grwpiau mewn pum lleoliad ar draws Cymoedd de Cymru – Pontarddulais, Abertridwr, Castell-nedd, Cwmbrân a Gilfach Goch, ac mewn un lleoliad y tu allan i'r ardal – Pen-y-bont ar Ogwr.  Dewiswyd y lleoliadau er mwyn cynnal amrediad o leoliadau daearyddol yng Nghymoedd de Cymru a hefyd, er mwyn llenwi bylchau o ran y lleoliadau yng ngweithgarwch ymgysylltu arall â'r cyhoedd Trafod y Cymoedd.

Roedd cyfanswm o 71 o unigolion wedi mynychu'r grwpiau ffocws hyn (gyda chwe chyfranogydd ym mhob grŵp, ac eithrio un grŵp a oedd yn cynnwys pump).  Recriwtiwyd y cyfranogwyr o'r chwe lleoliad daearyddol gwahanol a chyflawnwyd y gwaith recriwtio gan recriwtwyr arbenigol a ddefnyddiodd holiadur sgrinio er mwyn nodi unigolion yr oedd eu nodweddion yn bodloni'r meini prawf samplu.  Rhoddwyd taliad bach i'r holl gyfranogwyr er mwyn cydnabod eu hamser a'u hymdrech i fynychu'r grŵp ffocws.

Defnyddiwyd meini prawf samplu bwriadus er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr gyda chymysgedd o nodweddion yn cael eu recriwtio.  Defnyddiwyd y dull samplu hwn er mwyn sicrhau bod modd casglu ystod lawn o safbwyntiau a phrofiadau.  Cyfansoddwyd y grwpiau mewn ffordd fwriadol er mwyn sicrhau bod pob grŵp yn cynnwys cyfranogwyr yr oedd ganddynt ddigon yn gyffredin er mwyn creu ychydig brofiad a rennir, a'r prif feini prawf a ddefnyddiwyd wrth ddyrannu'r grŵp preswylwyr oedd; gweithgarwch economaidd, grŵp oedran; cyfansoddiad yr aelwyd a'r iaith Gymraeg.  Mae Ffigwr 1 yn dangos cyfansoddiad pob grŵp.  Cynhaliwyd dau o'r grwpiau ffocws trwy gyfrwng y Gymraeg.  Cynhwyswyd cyfranogwyr o grwpiau targed eraill ar draws y gwahanol grwpiau:  unigolion anabl, unigolion o gefndir du neu leiafrif ethnig (BME) ac unigolion o wahanol grefydd a ffydd.

**Ffigwr 1. Cyfansoddiad y grwpiau ffocws**

| **Lleoliadau** | | |
|---|---|---|
| **Location 1** | **Grŵp 1**<br>**6 Rhiant plant oed ysgol**<br>** Grŵp cyfrwng Cymraeg **<br><br>4 benyw; 2 wryw.<br>3 phlentyn oedran meithrin neu gynradd, 1 plentyn uwchradd, 2 gyda'r ddau. | **Grŵp 2**<br>**6 sy'n gweithio neu sy'n hunangyflogedig.**<br><br>4 benyw;  2 wryw.<br>Roedd pob un ohonynt yn gweithio. |
| **Lleoliad 2** | **Grŵp 3**<br>**6 o Bobl ifanc 18-25 oed heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant**<br>4 benyw, 2 wryw.<br>5 di-waith, 1 yn astudio llai nag 16 awr yr wythnos. | **Grŵp 4**<br>**5 Rhiant plant oed ysgol**<br><br>3 benyw, 2 wryw<br>3 o blant uwchradd, 2 gyda phlant meithrin neu gynradd. |
| **Lleoliad 3** | **Grŵp 5**<br>**6 o Bobl ifanc 18-25 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant**<br>** Grŵp cyfrwng Cymraeg **<br>3 benyw;  3 gwryw<br>Roedd pob un ohonynt yn gweithio. | **Grŵp 6**<br>**6 o Breswylwyr 50+ oed**<br><br>3 benyw;  3 gwryw<br>2 sy'n gweithio, 1 wedi lled-ymddeol, 2 wedi ymddeol, 1 yn ddi-waith / rhwng contractau. |

| | | |
|---|---|---|
| **Lleoliad 4** | **Grŵp 7**<br>**6 perchennog/rheolwr busnes**<br><br>2 wryw;  4 benyw<br><br>2 unig fasnachwr, 3 busnes micro, 1 busnes o faint canolig<br>Cymysgedd o sectorau:  lletygarwch, crefft, adeiladu, logisteg, glanhau. | **Grŵp 8**<br>**6 o bobl y mae ganddynt ddiddordeb busnes**<br>**di-waith a/neu'n economaidd anweithgar**<br><br>2 fenyw, 4 gwryw.<br>4 yn ddi-waith, 1 yn gofalu am deulu ac 1 yn gyflogedig am lai nag 16 awr yr wythnos. |
| **Lleoliad 5** | **Grŵp 9**<br>**6 o Bobl ifanc 18-25 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant**<br><br>4 benyw, 2 wryw<br><br>2 mewn prifysgol, 1 mewn coleg, 3 yn gyflogedig. | **Grŵp 10**<br>**6 o unigolion di-waith neu economaidd anweithgar a'r rhai ar gontractau heb ddiogelwch.**<br><br>3 benyw, 3 gwryw<br><br>4 yn cael eu cyflogi dan gontract dim oriau, 2 yn ddi-waith. |
| **Lleoliad 6** | **Grŵp 11**<br>**6 o breswylwyr sy'n byw y tu allan i'r Cymoedd**<br><br>3 gwryw;  3 benyw | **Grŵp 12**<br>**6 o berchnogion/rheolwyr busnesau wedi'u lleoli y tu allan i'r Cymoedd**<br><br>4 gwryw;  2 fenyw<br><br>Cymysgedd o ran maint y busnesau; cymysgedd o sectorau. |

Hwyluswyd y grwpiau ffocws gan gymedrolwr gan ddefnyddio canllaw i faterion, a ddefnyddiwyd er mwyn helpu i gynnig ffocws a siâp i'r drafodaeth, gan ganiatáu i bob grŵp drafod materion perthnasol mewn ffordd agored wrth iddynt godi.  Datblygwyd cwestiynau'r grŵp ffocws o'r materion a oedd yn codi o'r cyfarfodydd agored a chasglwyd safbwyntiau cyfranogwyr am:

- Dybiaethau cyffredinol o'u hardal leol a Chymoedd ehangach de Cymru;
- A ydynt yn teimlo'n falch o'r ffaith eu bod yn byw a/neu'n gweithio yn y Cymoedd a pham;
- Ansawdd bywyd gwaith a chyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau lleol, bywyd cymunedol ac amgylchedd ffisegol eu hardal leol, yn ogystal â sut y byddai modd gwella'r rhain;
- Prif flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, y byddent yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'w bywydau yn y Cymoedd; a,
- Ffynonellau gwybodaeth am newyddion a digwyddiadau lleol.

Roedd pob trafodaeth grŵp wedi para tua awr a hanner.  Trefnwyd recordiad sain o drafodaethau pob grŵp (ar ôl sicrhau caniatâd y cyfranogwyr) a pharatowyd nodiadau at ddibenion dadansoddi.  Ar ddiwedd pob grŵp, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn dymuno dewis cael gwybodaeth bellach am Dasglu'r Cymoedd.

### 1.1.3 Arolwg ar-lein

**Hwylusodd Arad arolwg ar-lein o breswylwyr sy'n byw a/neu'n gweithio yng Nghymoedd de Cymru.** Cynhaliwyd yr arolwg rhwng dydd Gwener 5 Mai 2017 a dydd Llun 26 Mehefin, ac fe'i cwblhawyd yn rhannol gan 777 o ymatebwyr.  Roedd croeso i'r rhai

sy'n byw neu sy'n gweitio yng Nghymoedd de Cymru gymryd rhan yn yr arolwg. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (88%) yn byw yn y Cymoedd, ac roedd y 12% a oedd yn weddill yn gweithio yn y Cymoedd, ond heb fod yn byw yn y Cymoedd.

Mabwysiadwyd dull samplu cyfleustra ar gyfer yr arolwg. Bu oedi cyn dosbarthu'r arolwg i'r cyhoedd ar y dechrau o ganlyniad i gyfyngiadau yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, ac ar y dechrau, dosbarthwyd yr arolwg trwy gyfrwng negeseuon e-bost i tua 80 o sefydliadau cymunedol wedi'u lleoli yn ac/neu'n gweithio yng Nghymoedd de Cymru, gan ofyn iddynt ei ddosbarthu i'w cysylltiadau a'i ddosbarthu'n fewnol o fewn Llywodraeth Cymru i staff sy'n byw a/neu'n gweithio yng Nghymoedd de Cymru. Gallai tuedd fod ynghlwm â'r dull caseg eira hwn gan na fyddai cysylltiadau sefydliadau yn gynrychioliadol o boblogaeth gyfan y Cymoedd o reidrwydd. Tuag at ddiwedd cyfnod yr arolwg, dosbarthwyd y ddolen i'r arolwg ar-lein yn ehangach trwy gyfrwng cysylltiadau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru (twitter a Facebook).

Roedd yr arolwg yn ceisio casglu safbwyntiau ymatebwyr am:

- Yr hyn sydd wedi eu hannog i barhau i fyw/gweithio yn y Cymoedd, neu i symud i'r Cymoedd;
- A ydynt yn teimlo'n falch o'r ffaith eu bod yn byw a/neu'n gweithio yn y Cymoedd a pham;
- Eu bodlonrwydd â'u hardal leol o ran bywyd gwaith, gwasanaethau lleol a bywyd cymunedol;
- Ansawdd amrediad o agweddau ar fywyd gwaith, gwasanaethau lleol a bywyd cymunedol yn y Cymoedd a sut y byddai modd gwella'r rhain; a
- Beth arall y byddai modd i Dasglu'r Cymoedd ei wneud er mwyn cynorthwyo'r Cymoedd nawr ac yn y dyfodol.

Roedd yr arolwg ar-lein yn cynnwys cwestiynau meintiol ac ansoddol ynghylch y themâu uchod. Dadansoddwyd yr holl ymatebion i'r cwestiynau meintiol a chyflwynir y prif ganlyniadau ar ffurf siartiau ac esboniadau ysgrifenedig mewn adrannau priodol o'r adroddiad hwn. Er mwyn nodi prif ganfyddiadau a oedd yn deillio o ymatebion ansoddol penagored, dilynwyd y weithdrefn ganlynol:

- Datblygwyd fframwaith codio wedi'i seilio ar y prif themâu bras (megis trafnidiaeth, tai a swyddi) a oedd yn deillio o waith maes ansoddol a digwyddiadau ymgysylltu cynnar (megis cyfarfodydd cyhoeddus a grwpiau ffocws staff).
- Nodwyd cyfres o eiriau allweddol ar gyfer pob thema (megis trafnidiaeth, ffyrdd, tagfeydd, traffig ar gyfer thema fras 'trafnidiaeth').
- Cynhaliwyd chwiliad geirfaol gan ddefnyddio'r geiriau allweddol hyn ar yr holl ymatebion i gwestiynau perthnasol, gan ddefnyddio meddalwedd dadansoddi data ansoddol (MAXQDA); yna, fe'u gosodwyd mewn cod gyda'r thema fras berthnasol yn awtomatig. Ar sail y chwiliad awtomatig hwn, nodwyd nifer fras y cyfeiriadau at bob thema fras.
- Yna, nodwyd is-themâu allweddol a oedd yn codi dan bob thema fras â llaw gan ymchwilwyr.

Gwneir gwaith dadansoddi pellach o'r ymatebion ansoddol yn ystod haf 2017 er mwyn nodi unrhyw themâu bras neu is-themâu yn ychwanegol i'r rhai a nodwyd eisoes, gyda'r nod o hysbysu Cynllun Cyflawni y Tasglu a gyhoeddir yn ystod hydref 2017.

### 1.1.4 Cyfathrebu ar-lein ychwanegol

**Yn ogystal, arweiniodd Llywodraeth Cymru ymarferion cyfathrebu allanol a mewnol** er mwyn codi proffil Trafod y Cymoedd a gwaith y tasglu, ac er mwyn cynnig llwybrau ychwanegol i'r cyhoedd gysylltu a rhannu eu safbwyntiau. Rhannwyd adborth o'r ymarferion hyn gydag Arad.

- Trefnwyd blwch e-bost Trafod y Cymoedd er mwyn i'r cyhoedd gysylltu (299 gohebiaeth gan 183 o bobl).
- Hwyluswyd fforwm ar-lein gan Lywodraeth Cymru ymhlith ei staff
- Agorwyd tudalen Facebook Trafod y Cymoedd (a gafodd 294,034 o argraffiadau tudalen a 70,183 o ddefnyddwyr unigryw) a chyhoeddwyd deunydd ar Twitter gan ddefnyddio hashnod #TrafodyCymoedd (795 o negeseuon trydar gan ddefnyddio'r hashnod, 531 aildrydar, gyda'r potensial o gyrraedd 495,000). Cyfyngwyd ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru fodd bynnag yn ystod y mis cyn yr etholiad cyffredinol, ac ni chafodd ei ddefnyddio'n llawn fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu.

## 1.2 Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif themâu a'r canfyddiadau sy'n deillio o'r gweithgarwch ymgysylltu. Mae'n seiliedig ar ystod gyfan y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymarferion ymgysylltu ac mae wedi cael ei strwythuro ar sail y dair thema allweddol hyn:

- Adran 2: swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni;
- Adran 3: gwell gwasanaethau cyhoeddus;
- Adran 4: cymuned.

# 2. Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni

***Themâu cyffredin ynghylch swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni o'r digwyddiadau ymgysylltu***


- Mae'r cyfleoedd lleol i gael swydd yn gyfyngedig, yn enwedig swyddi sy'n cynnig rhagolygon o gamu ymlaen yn eich gyrfa.
- Nifer fawr o gontractau dim oriau, gwaith dros dro a gwaith asiantaeth.
- Mae angen cynorthwyo pobl i sicrhau cyflogaeth.
- Mae angen cymorth busnes a chanllawiau pellach ar fusnesau lleol er mwyn datblygu'r economi leol yn y Cymoedd.

Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r adborth a gafwyd o'r arolwg ar-lein; cyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol; grwpiau ffocws gyda phreswylwyr a busnesau; cyfarfodydd gyda phobl ifanc a rhieni plant oed ysgol; a sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol.

## 2.1 Dim digon o swyddi

Gofynnwyd i'r sawl a ymatebodd i'r arolwg fynegi eu safbwyntiau am eu hardal leol fel lle i weithio. At ei gilydd, mae 23% o'r ymatebwyr yn 'fodlon iawn' â'r ardal y maent yn byw ynddi fel lle i weithio, mae 38% yn 'gymharol fodlon', mae 12% 'heb fod yn fodlon nac yn anfodlon', mae 14% yn 'eithaf anfodlon' ac mae 12% yn 'anfodlon iawn' â hi.

**Ffigwr 2. Bodlonrwydd ymatebwyr i'r arolwg gyda'r ardal y maent yn byw ynddi fel lle i weithio**





Ffynhonnell: Ymatebwyr i'r arolwg; N=738

Yn ogystal, gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg fynegi eu barn am agweddau penodol ar fywyd gwaith a'r economi yn eu hardal. Nododd cyfanswm o 65% bod cyflogau lleol yn 'wael', nododd 27% bod cyflogau lleol yn 'ddigonol', nododd 7% eu bod yn 'dda' a dim ond

1% nododd eu bod yn 'ardderchog'. Yn ogystal, nododd cyfanswm o 65% bod y cyfle i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth lleol yn agos i'w cartref yn 'wael', nododd 25% bod y cyfle i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth lleol yn 'ddigonol', nododd 9% bod y cyfle'n 'dda' a dim ond 1% nododd bod y cyfle'n 'ardderchog'.

**Ffigwr 3. Barn ymatebwyr i'r arolwg am y cyfle i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth lleol yn agos i'w cartref ac am gyflogau lleol.**




Ffynhonnell: Ymatebwyr i'r arolwg; N=658 a 662.

Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiwn penagored am fywyd gwaith a'r economi. Codwyd swyddi a gyrfaoedd 352 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau o:

- Ddiffyg swyddi yng Nghymoedd de Cymru;
- Yr angen am fwy o swyddi yn gyffredinol, gan gynnwys swyddi sy'n addas i bobl ifanc ac oedolion hŷn;
- Yr angen am swyddi gwell, megis swyddi sy'n gallu cynnal teuluoedd, helpu pobl i deimlo balchder yn eu gwaith a swyddi sy'n cynnig cyflog addas;
- Yr angen i swyddi fod yn hygyrch i'r rhai sy'n byw yn y Cymoedd, yn enwedig o ran trafnidiaeth a'u lleoliad;
- Buddsoddiad annigonol gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn darparu swyddi o'r fath;
- Bod gormod o gontractau dim oriau a gwaith dros dro neu waith rhan-amser ar gael yn y Cymoedd; a
- Diffyg swyddi addas ac o ansawdd da, sy'n caniatáu pobl i ddatblygu eu gyrfaoedd.

*Er bod y Cymoedd wedi bod trwy gyfnod hir o lefelau diweithdra uchel, pyllau glo/ffatrïoedd/busnesau yn cau, mae pobl yn teimlo'n gadarnhaol am y dyfodol ar y cyfan, ac maent yn dymuno gweithio mewn/cynorthwyo gweithgarwch buddsoddi/swyddi newydd.*

*Rhowch swyddi i bobl y maent yn dymuno'u gwneud ac y maent yn falch o'u gwneud.*

*Pobl bron marw o eisiau swydd, ond gyda llai o obaith.*

*Yn fy marn i, mae cyfanswm y swyddi rhan-amser a'r swyddi lle y mae'r cyflog yn isel yn bryder mawr yn y Cymoedd.*

*Mae angen dwyn buddsoddwyr i'r ardal a fydd yn creu swyddi, ond dim contractau dim oriau.*

*Swyddi go iawn, nid contractau tymor byr neu ddim oriau.*

*(Sylwadau i'r arolwg)*

---

Yn ogystal, gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws ddisgrifio bywyd gwaith yn eu hardal nhw ac yn y Cymoedd yn gyffredinol. Mynegwyd pryderon ynghylch agweddau amrywiol ar fywyd economaidd a'r math o swyddi sydd ar gael yn rhanbarth yn yr holl drafodaethau grŵp. Ar draws grwpiau ffocws, disgrifiwyd marchnad swyddi gyfyngedig, nifer fawr o gontractau dim oriau a gwaith asiantaeth dros dro, materion sy'n ymwneud â theithio a thrafnidiaeth i gyfleoedd addysg a chyflogaeth a diffyg rhagolygon er mwyn camu ymlaen mewn gyrfa gan y cyfranogwyr.

---

*Yr unig swyddi yn yr ardal yw rhai dan gontractau dim oriau, neu waith mewn canolfannau galwadau. Nid oes gobaith cael gyrfa neu o gamu ymlaen yn eich swydd yn y Cymoedd. (Cyfranogwr mewn grŵp ffocws – Gwryw, 25, yn cael ei gyflogi fel athro).*

*Mae angen mwy o gyfleoedd i wella'ch hun. Mae'r rhai sy'n gweithio yn cyflawni swyddi heb ddyfodol, gan golli pob uchelgais i gamu ymlaen gan eu bod o'r farn mai dyma'r gorau y mae modd iddynt ei wneud. Pe byddai mwy o gyfle i bobl gamu ymlaen, byddai ganddynt fwy o gymhelliant. Dyma'r peth arall yn fy marn i, byddwch yn ymuno â'r farchnad swyddi ac yn gweld y swyddi sydd ar gael, gan feddwl iawn, rydw i'n mynd i roi cynnig ar faes gofal, nid ydw i fyth yn mynd i newid, byddaf yn gweithio am yr isafswm cyflog am weddill fy mywyd, gan wneud yr un gwaith ddydd ar ôl dydd. Nid oes angen cymhelliant i wella, gan nad oes unrhyw le y mae modd gwella, dyma'r pen draw. Ceir nenfwd gwydr. (Cyfranogwr mewn grŵp ffocws – Gwryw, 30au, di-waith)*

---

Trafodwyd materion yn ymwneud â phobl ifanc yn ystod sawl digwyddiad ymgysylltu ac mewn perthynas â swyddi a sgiliau, a gwelwyd tybiaeth nad oes unrhyw gyfleoedd i bobl ifanc. Mynegwyd pryder gan nifer yn y grwpiau ffocws ynghylch y ffaith nad oes modd i'r farchnad swyddi leol gynnal gweithwyr ifanc proffesiynol sy'n chwilio am swydd ystyrlon gyda rhagolygon o sicrhau dyrchafiad, ac esboniodd pobl ifanc mewn un grŵp 'nad yw pobl ifanc yn dymuno aros yn yr ardal, gan nad oes unrhyw swyddi yma ar ôl gorffen eu haddysg'. Ar y llaw arall, roedd un grŵp yn teimlo'i bod yn arbennig o anodd i'r rhai dros 50 oed i sicrhau gwaith, ac nad oes nifer o'r swyddi sydd ar gael ac sy'n cynnig tâl isel neu'r rhai y mae lefel y sgiliau sy'n ofynnol er mwyn eu cyflawni yn isel, yn cael eu cynnig i'r rhai sydd â phrofiad.

Roedd diffyg swyddi addas a 'diffyg cyfleoedd i sicrhau datblygiad mewn gyrfa' yn thema gyffredin ar draws mwyafrif y cyfarfodydd. Mae angen swyddi gwell yn agosach i'r mannau lle y mae pobl yn byw 'gan na fydd nifer fawr o bobl deithio pellteroedd i'r gwaith neu nid oes modd iddynt wneud hynny'. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar yr angen i greu cyfleoedd cynaliadwy yn lleol ac i ddwyn swyddi i'r Cymoedd, law yn llaw â newid

diwylliannol er mwyn annog pobl i deithio y tu hwnt i'w hardal leol er mwyn cael gwaith a hyfforddiant.

## 2.2 Creu swyddi

Dywedodd preswylwyr y Cymoedd y dylid rhoi blaenoriaeth i'r cam o ddenu mwy o fuddsoddiad i'r Cymoedd gan fusnesau.  Fodd bynnag, nododd rhai cyfranogwyr mewn grwpiau ffocws bod nifer o drefi yn orddibynnol ar gyflogwyr mawr a bod hyn yn aml yn golygu bod trefi mewn sefyllfa agored i niwed pe byddai'r busnesau hyn yn gadael.  Cafwyd trafodaeth mewn rhai grwpiau am y sialensiau sy'n gysylltiedig â denu buddsoddiad gan fusnesau, gan bod y Cymoedd a'u pobl yn aml yn cael eu portreadu mewn ffordd negyddol mewn rhannau o'r cyfryngau, sy'n golygu y gallai busnesau benderfynu peidio buddsoddi yn yr ardal.

Mewn cyferbyniad, roedd busnesau (gan gynnwys y rhai y tu hwnt i'r Cymoedd) yn tueddu i fynegi safbwyntiau cadarnhaol am y gweithlu yn y Cymoedd, ac maent yn ei ystyried fel mantais wrth ddenu buddsoddiad newydd.  Nododd rhai busnesau bod preswylwyr de Cymru yn bobl sy'n gweithio'n galed yn eu barn nhw, a'u bod yn tueddu i ddangos 'mwy o deyrngarwch' trwy aros yn yr un swydd am gyfnod hwy na'r cyfartaledd, gan gynnig mantais i fusnesau llai o ran parhad a chostau recriwtio.  Awgrymodd rhai cyfranogwyr y gallai hyn fod yn deillio o'r dewis mwy cyfyngedig o ran y swyddi sydd ar gael yng Nghymoedd de Cymru.

> *Mae angen sicrhau ffordd o berswadio busnesau y byddent yn sefydlu yn Abertawe neu yng Nghaerdydd fel arall, i sefydlu yn y Cymoedd.  Dylai fod modd i'r Llywodraeth wneud rhywbeth er mwyn sicrhau bod yr ardal yn fwy deniadol i fusnesau.  (benyw, 25, nyrs, Castell-nedd Port Talbot)*
>
> *Ceir cylch lle y mae cwmnïau [mawr] yn gadael ac mae trefi'n dirywio, yna bydd cwmni arall yn symud i dref gyfagos a bydd yr ardal honno yn gwella.  (Ymateb i'r arolwg)*

Roedd pobl ifanc mewn grwpiau ffocws o'r farn y dylid gwneud mwy i ddenu busnesau lletygarwch megis bwytai a bariau i drefi yng Nghymoedd de Cymru.  Barnwyd bod dwy fantais i hyn:  cynnig mwy o gyfleoedd cyflogaeth a gwneud yr ardal yn fwy deniadol i breswylwyr, yn enwedig i bobl ifanc.


Mynegwyd yr amrywiadau o ran lefel y buddsoddiad a'r gweithgarwch busnes ar draws gwahanol rannau o'r Cymoedd yn ystod gweithgarwch ymgysylltu â staff Llywodraeth Cymru.  Roedd adfywio canol trefi yn flaenoriaeth allweddol i rai staff sy'n byw mewn cymunedau yn y Cymoedd, yn enwedig yn y Cymoedd uchaf.  Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn nodi'r cyferbyniad a welir rhwng lefel uchel y buddsoddiad mewn rhannau o drefi megis Merthyr Tudful a'r diffyg cyfleoedd yn y cyffiniau.  Roedd rhai'n amlygu rhwystrau ymddangosiadol sy'n atal buddsoddiad mewn canol trefi, megis ardrethi busnes uchel a chostau parcio, a nododd eraill sut yr oedd rhai awdurdodau lleol (e.e.  Rhondda Cynon Taf) wedi cael gwared ar rai costau parcio mewn canol trefi er mwyn ceisio'u gwneud yn fwy deniadol.  Amlygodd rhai pobl yr angen i gydnabod bod busnesau'n fwy

tebygol o gael eu denu i ardaloedd 'canolbwynt' ac y byddai'n fwy heriol denu busnesau i ardaloedd mwy anghysbell.

## 2.3 Cymorth ar gyfer busnesau

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg fynegi eu barn am agweddau penodol am y cymorth ar gyfer busnesau yn eu hardal. Dywedodd cyfanswm o 65% o'r ymatebwyr bod y gweithgarwch er mwyn denu cwmnïau i'r Cymoedd yn 'wael', dywedodd 20% bod hwn yn 'ddigonol', dywedodd 13% bod hwn yn 'dda' a dim ond 2% a ddywedodd bod hwn yn 'ardderchog'. Yn ogystal, dywedodd cyfanswm o 54% bod y cymorth er mwyn i fusnesau lleol sefydlu a thyfu yn 'wael', dywedodd 28% bod y cymorth yn 'ddigonol', dywedodd 15% bod y cymorth yn 'dda' a dim ond 2% a ddywedodd bod y cymorth yn 'ardderchog'.

**Ffigwr 4. Barn ymatebwyr i'r arolwg am y cymorth ar gyfer busnesau lleol ac ymdrechion i ddenu cwmnïau i'r Cymoedd.**




Ffynhonnell: Ymatebwyr i'r arolwg; N=615 a 536.

Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored. Codwyd busnesau 302 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys safbwyntiau:

- Y dylid cynorthwyo busnesau lleol i ddatblygu'r economi yn y Cymoedd;
- Bod angen cymorth ar fusnesau bach er mwyn iddynt dyfu a datblygu, gan gynnwys grantiau er mwyn sefydlu busnesau, cymorth i dalu rhent ac ardrethi a chymorth lleoli;
- Bod y math hwn o gymorth yn bwysig wrth annog busnesau newydd i ymsefydlu yn y Cymoedd ac er mwyn i fusnesau allweddol fuddsoddi yn y Cymoedd neu symud yma; ac
- Mae denu busnesau newydd i'r Cymoedd yn allweddol er mwyn datblygu economi'r Cymoedd a bod modd denu busnesau bach a mawr i ardaloedd diwydiannol ac i ganol trefi.

*Cyflwyno safleoedd busnes am rhent isel er mwyn caniatáu i bobl gychwyn eu busnes eu hunain, neu gyflwyno cyfraddau lle y cynigir gostyngiad ar rhenti er mwyn cychwyn busnes newydd.*

*Gwn bod busnesau'n gallu ffynnu mewn trefi bach hyd yn oed, efallai bod angen i chi gynnal sioeau teithiol/diwrnodau agored mewn neuaddau cymunedol er mwyn esbonio i bobl sut y gallant sefydlu busnesau lleol newydd, y broses a syniadau busnes.*

*(Ymatebwyr i'r arolwg)*

Cynhaliwyd dwy drafodaeth grŵp ffocws gyda chynrychiolwyr busnesau, a thrafodwyd swyddi a sgiliau.  Mynegwyd pryderon tebyg gan gynrychiolwyr busnesau wedi'u lleoli yng Nghymoedd de Cymru a'r rhai wedi'u lleoli y tu hwnt i'r Cymoedd, ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer busnesau ac ar gyfer cyflogaeth ehangach yng Nghymoedd de Cymru.  Nododd busnesau bod economi'r Cymoedd wedi bod yn dirywio ers blynyddoedd, yn enwedig o ran diwydiannau megis gweithgynhyrchu.  Roeddent yn pwysleisio bod y seilwaith trafnidiaeth, ac ansawdd rhwydwaith y ffyrdd yn arbennig, yn wael ar y cyfan (er bod rhai trefi'n ganolfannau trafnidiaeth gyhoeddus da) a bod hyn yn rhwystro busnesau newydd rhag buddsoddi yn yr ardal ac yn ei gwneud hi'n anodd i fusnesau sy'n bodoli eisoes i ehangu a chyrraedd eu cleientiaid.

*Nifer y cwmnïau nad ydynt yn fodlon dod draw atom ni oherwydd y bont, a dyma'r cwmnïau y mae angen iddynt ddod atom, ond gyda chostau'r bont a'r traffig trwy Casnewydd, nid ydynt yn mynd i.  (Gwryw, rheolwr busnes mawr)*

Yn ogystal, amlygodd fusnesau ddiffyg safleoedd busnes addas yn y Cymoedd ar gyfer busnesau llai a mwy o faint;  bydd busnesau bach yn ei chael hi'n anodd fforddio'r rhent a'r ardrethi ar gyfer safleoedd, a bydd busnesau mwy yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i safleoedd mawr.  Maent yn nodi bod y diffyg safleoedd busnes addas hwn yn rhwystro buddsoddiad newydd yn yr ardal hefyd.  O'r herwydd, bydd angen i fusnesau sy'n bodoli eisoes a busnesau newydd ehangu i ddinasoedd mawr megis Abertawe, Casnewydd neu Gaerdydd yn aml, yn hytrach na'r Cymoedd.

*Pethau fel ardrethi a rhent a phethau fel hynny.  Byddwn i wrth fy modd yn agor siop.  Byddwn wrth fy modd yn rhedeg ysgol grefft yno, ond nid oes gobaith i mi allu fforddio'r rhent neu'r ardrethi.  Ar hyn o bryd, rydw i'n rhentu ystafell fach mewn newydd gymunedol bob hyn a hyn er mwyn cynnal fy nosbarthiadau.  (Grŵp ffocws: Hunangyflogedig, benyw, sector crefft)*

Mynegwyd safbwyntiau eithaf negyddol gan fusnesau yn y Cymoedd am y cymorth sydd ar gael er mwyn sefydlu a thyfu busnes, gan nodi na fyddent yn gwybod ble i droi am gyngor neu gymorth ymarferol megis llenwi ffurflenni treth neu hawlio cymorth ariannol.  Yn ogystal, nododd busnesau yn y Cymoedd bod digon o gyfleoedd hyfforddiant ar gael iddyn nhw ac i'w staff, ond nad yw'r cyfleoedd hyn yn fforddiadwy yn aml.  Ar y llaw arall, roedd busnesau sydd wedi'u lleoli y tu hwnt i'r Cymoedd yn barnu bod mwy o gymorth ar gael i fusnesau yn y Cymoedd nag i'r rhai y tu hwnt i'r Cymoedd, a bod digon o hyfforddiant ar gael.

*Rydw i wedi gwneud popeth fy hun – symud ymlaen trwy brofi a methu.  Ac i ryw raddau, os nad yw wedi gweithio, byddwch chi'n dal ati.  Nid oeddwn yn gwybod ac nid ydw i'n gwybod rhai pethau o hyd, megis os oes pethau y mae modd i mi eu hawlio neu beidio.  (Grŵp ffocws:  Hunangyflogedig, benyw, sector crefft)*


*Nid oes modd i chi ddilyn cwrs os ydych chi eisoes wedi dilyn cwrs, neu os byddant o'r farn eich bod yn rhy gymwys, bydd yn rhaid i chi dalu amdano.  (Grŵp ffocws: benyw, rheolwr busnes lleol)*

Roedd busnesau'n teimlo'n eithaf cadarnhaol am addasrwydd y gweithlu yn y Cymoedd, gan nodi bod digon o gyfleoedd er mwyn is-gontractio'n lleol.  Fodd bynnag, nododd busnesau yn y Cymoedd hefyd bod llai o bobl ifanc yn cael eu cymell i chwilio am waith yn y Cymoedd, a bod angen uwchsgilio staff o hyd.

## 2.4 Mwy o help i gael swydd

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg fynegi eu barn am yr help sydd ar gael i bobl di-waith i chwilio am waith a'r cymorth er mwyn meithrin sgiliau pobl.  Dywedodd cyfanswm o 48% bod yr help ar gyfer pobl di-waith i chwilio am waith yn 'wael', dywedodd 33% bod yr help yn 'ddigonol', dywedodd 7% bod yr help yn 'dda' a dim ond 2% a ddywedodd bod yr help yn 'ardderchog'.  Yn ogystal, dywedodd 45% bod y cymorth er mwyn meithrin sgiliau pobl yn 'wael', dywedodd 32% bod y cymorth yn 'ddigonol', dywedodd 20% bod y cymorth yn 'dda' a dywedodd 3% bod y cymorth yn 'ardderchog'.

**Ffigwr 5. Barn ymatebwyr i'r arolwg am y cymorth sydd ar gael i bobl di-waith i chwilio am waith a'r cymorth er mwyn meithrin sgiliau pobl**




Ffynhonnell:  Ymatebwyr i'r arolwg; N=601 a 640.

Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiwn penagored am fywyd gwaith a'r economi.  Nodwyd help i gael swydd 76 gwaith yn yr ymatebion hyn.  Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau o'r:

- Angen i gynorthwyo pobl i gael gwaith;
- Yr angen am gymorth penodol gan gynnwys help wrth chwilio am swydd a datblygu CVs, buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygu a darparu cymorth dwys un-i-un yn ôl yr angen;
- Yr angen i gymorth o'r fath fod ar gael ar gyfer gwahanol grwpiau oedran, gan gynnwys pobl ifanc ac oedolion hŷn;
- Yr angen i'r cymorth hwn fod yn hygyrch, megis trwy sicrhau bod Canolfannau gwaith mewn lleoliadau hygyrch; a'r
- Angen i gynorthwyo gweithgarwch camu ymlaen mewn gyrfa ar gyfer y rhai sydd eisoes yn gweithio, er mwyn darparu gyrfaoedd o ansawdd da.

---

*Rhagor o gyfleusterau galw heibio i'r di-waith er mwyn iddynt gael help gyda budd-daliadau, chwilio am swydd, CVs ac ati.*

*Buddsoddiad pellach mewn hyfforddiant a datblygu er mwyn helpu pobl i gael gwaith ond hefyd, er mwyn helpu datblygiad gyrfa pobl – nid ar gyfer y rhai ar fudd-daliadau'n unig.*

*Sicrhau bod modd i bobl heb waith fanteisio ar gymorth a help y mae ei angen arnynt er mwyn cael swydd.*

*(Ymatebion i'r arolwg)*

---

Roedd y preswylwyr yn y grwpiau ffocws wedi galw am fwy o gymorth sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth hefyd. Er y cafwyd adborth cadarnhaol yn gyffredinol am y cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael, esboniodd y preswylwyr mai'r prif her i nifer o bobl ifanc yw teithio i'r coleg. Nododd rhai bod darpariaeth hyfforddiant ar gael yn lleol (gan enwi darparwyr hyfforddiant preifat a'u coleg lleol) ond roeddent yn teimlo nad oes swyddi ar gyfer y rhai sy'n mynd ar eu cyrsiau; roeddent yn cyfeirio at ffrindiau a oedd wedi dilyn cyrsiau, ond na fu modd iddynt sicrhau gwaith wedi hyn. Roedd rhai pobl heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn teimlo bod y cyfleoedd hyfforddiant sy'n cynnig profiad gwaith neu leoliad gwaith hefyd yn gyfyngedig. Barnwyd bod y math hwn o gyfle yn un deniadol i'r bobl ifanc hyn.

---

*Rhaid i mi deithio ar dri bws er mwyn cyrraedd y brifysgol, ac nid ydynt yn cynnig tocyn myfyriwr. Mae'r cyfan yn cyfrif. (Cyfranogwr mewn grŵp ffocws, benyw, 21, myfyriwr a gweithiwr gofal)*

*Mae mor anodd cyrraedd y coleg, mae pob bws yn llawn, ac mae'n rhaid i'r plant ddibynnu ar y ffaith nad yw eu rhieni'n gweithio, neu nid oes modd iddynt gael lifft yn ôl (Cyfranogwr mewn grŵp ffocws, benyw, 40, gweithiwr ar gontract dim oriau)*

---

Mynegwyd arsylwadau gan gyfranwyr yn ystod y cyfarfodydd cyhoeddus am yr hyn a oedd wedi gweithio yn y gorffennol, gan argymell ffocws ar sgiliau 'go iawn':

*Sawl blwyddyn yn ôl, roeddwn yn gweithio i'r bwrdd hyfforddiant adeiladu a'n mantra ni oedd hyfforddiant go iawn, sgiliau go iawn, swyddi go iawn, ac mae hyn wedi bod ar goll ers sawl blynedd. Rhaid i ni hyfforddi pobl yn y sgiliau y bydd modd iddynt eu defnyddio, yn hytrach na mynd o un cynllun hyfforddiant i'r llall heb unrhyw gyfle o sicrhau cyflogaeth.*

Yn ystod un cyfarfod thema, cafwyd trafodaeth am yr angen i ddatblygu sgiliau dan arweinyddiaeth cyflogwyr, er mwyn sicrhau bod modd i bobl fanteisio ar gyflogaeth, a bod cymysgedd dda yn bodoli o ran sgiliau. Mae hyn yn cynnwys archwilio sut y mae modd integreiddio hyfforddiant galwedigaethol yn y system addysg ac archwilio sut y mae modd darparu gwell cyfleoedd prentisiaeth ac addysg uwch ar gyfer gwahanol oedrannau.

### 2.4.1 Argaeledd a chost gofal plant

Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored. Nodwyd gofal plant 34 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau o'r:

- Angen am ofal plant fforddiadwy a hygyrch er mwyn sicrhau bod mod i rieni ddechrau gweithio neu sicrhau datblygiad yn eu gyrfaoedd;
- Diffyg o ran y gofal plant sydd ar gael;
- Cost gofal plant a chyflogau isel y rhai sy'n gweithio yn y sector;
- Yr angen i wella agweddau penodol ar ofal plant, megis darpariaeth gofleidiol.

Yn fwy cyffredinol, roedd preswylwyr o'r farn bod eu hardaloedd yn cael eu gwasanaethu'n dda gan gymorth a gweithgareddau ar gyfer plant iau a theuluoedd yn gyffredinol, yn enwedig gan y rhai yr oeddent wedi cael profiad o Ddechrau'n Deg.

Yn ystod y cyfarfodydd thema, amlygwyd cost ac argaeledd gofal plant gan rieni, yn enwedig y diffyg gofal ar gyfer plant dan ddwy oed. Mae rhieni'n adrodd bod y lleoedd cyfyngedig ar gyfer plant ifanc iawn yn golygu bod yn rhaid i rieni / gofalwyr deithio ymhellach er mwyn manteisio ar ofal plant. Yn ogystal, adroddodd rhieni bryderon ynghylch cost gofal plant. Teimlwyd bod y ffactorau hyn yn arwain at bobl 'nad ydynt yn gallu fforddio gweithio'. Amlygwyd hefyd nad yw amseroedd / diwrnodau gofal plant yn ystyried gwaith sifft ac oriau anghymdeithasol fel rhai nyrsys.

### 2.4.2 Cyngor Gyrfaoedd a sgiliau gwaith ar gyfer pobl ifanc

Ceir diffyg cyngor gyrfaoedd hollol wybodus a chyson ar gyfer pobl ifanc yn ôl rhai ymatebwyr i'r arolwg ac yn y grwpiau ffocws. Nododd rhai pobl ifanc yn y grwpiau ffocws nad yw addysg bellach a chyrsiau hyfforddiant eraill yn rhoi profiad gwaith iddynt. Roedd y bobl ifanc hyn yn teimlo bod diffyg lleoliadau gwaith, ac y byddai'r mathau hyn o gyflogaeth yn debygol o'u denu i gyrsiau hyfforddiant. Pwysleisiwyd y cyswllt rhwng addysg a byd gwaith yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus ac yn arbennig, y cyfarfodydd wedi'u seilio ar thema arbennig gydag ysgolion a busnesau. Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod angen hyrwyddo mwy o weithgarwch ymgysylltu gan gyflogwyr mewn ysgolion, gan ddarparu mwy o gyfleoedd profiad gwaith i ddysgwyr.

Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored.  Nodwyd pobl ifanc a chyngor gyrfaoedd 151 gwaith yn yr ymatebion hyn.  Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau bod:

- Angen gwell cymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd ar bobl ifanc;
- Bod elfennau allweddol cymorth yn cynnwys arweiniad gyrfaoedd o ansawdd uchel, cyfleoedd hyfforddiant, cyfleoedd anffurfiol megis clybiau ieuenctid er mwyn meithrin sgiliau a chymorth er mwyn datblygu a chyflawni eu huchelgais o ran gyrfa;
- Bod modd i gyfleoedd gwirfoddoli a grwpiau gwirfoddolwyr gyflawni rôl allweddol wrth ddatblygu sgiliau cyflogaeth pobl ifanc;  ac
- Nad oes digon o gyfleoedd gyrfa a dilyniant ar gael ar hyn o bryd er mwyn annog pobl ifanc i aros yn eu hardaloedd lleol.

---

*Dylai cynghorwyr gyrfaoedd deimlo'n angerddol ynghylch helpu pobl iau.*

*Annog a darparu cyrsiau am ddim i'r genhedlaeth iau a'r di-waith i feithrin sgiliau er mwyn eu helpu i gael swydd.*

*Dyfodol gwell gyda mwy o gyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc – stopio'r dylifiad dawn o'r Cymoedd.*

*(Ymatebion i'r arolwg)*

---

# 3. Gwell gwasanaethau cyhoeddus

***Themâu cyffredin ynghylch gwasanaethau cyhoeddus***

- Cafwyd galwad i gydgysylltu gwasanaethu'n well a bod preswylwyr yn cael cymryd rhan mewn penderfyniadau.
- Roedd sialensiau trafnidiaeth yn thema allweddol ar draws yr holl weithgarwch ymgysylltu ym mhob maes, a mynegwyd pryderon gan nifer o breswylwyr ynghylch trafnidiaeth fel rhwystr sy'n atal pobl rhag manteisio ar gyflogaeth.
- Mynegwyd rhai safbwyntiau cadarnhaol am wasanaethau iechyd yn gyffredinol, ond rhai problemau ynghylch manteisio ar wasanaethau meddyg teulu; manteisio ac wasanaethau ysbyty a gwasanaethau iechyd meddwl.
- Roedd diffyg tai fforddiadwy yn gŵyn fawr, yn yr un modd â'r ffaith bod nifer o dai gwag mewn cyflwr gwael gerllaw ystadau newydd o dai anfforddiadwy.

## 3.1 Mae angen i wasanaethau cyhoeddus gael eu cydgysylltu'n well

Rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored am wasanaethau cyhoeddus. Nodwyd yr angen am wasanaethau mwy cydgysylltiedig 26 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys safbwyntiau bod:

- Angen i'r sector cyhoeddus gynllunio mewn ffordd fwy strategol ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, er mwyn sicrhau y darparir gwasanaethau mewn ffordd gyson ar draws rhanbarthau; a
- Dylai darpariaeth gwasanaethau fod yn fwy integredig, gan ei gwneud yn haws i'r cyhoedd fanteisio ar y cymorth y mae ei angen arnynt mewn ffordd amserol.


> *Mae angen i'r cynghorau gydweithio'n fwy a gweld darpariaeth gwasanaethau ar sail ôl troed rhanbarthol.*
>
> *Dylent sicrhau bod cymunedau'n cymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir gan nad yw hi'n ymddangos fel bod llawer o feddwl cydgysylltiedig yn digwydd.*
>
> *(Ymatebion i'r arolwg)*

Yn yr un modd, mewn un cyfarfod cyhoeddus, mynegwyd pryder ynghylch y ffaith nad yw llywodraeth leol yn ymgysylltu â phreswylwyr, a theimlad bod angen newid y diwylliant. Roedd teimlad bod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb gynnig digon o gyfleoedd i bobl fynegi eu barn a theimlwyd bod gwasanaethau sy'n gweithio mewn seilos yn peri problemau. Mewn cyfarfod cyhoeddus arall, gofynnwyd i'r tasglu 'weithio ar ysbryd cymunedol' trwy ymgysylltu pobl yn y broses o wneud penderfyniadau am eu cymuned, ond cydnabuwyd bod pobl 'wedi cael digon ar gael gwybod beth y mae ei angen arnynt'. Rhoddwyd sylw i'r mater hwn yn ystod sesiynau ymgysylltu â staff Llywodraeth Cymru hefyd, gyda phwyslais ar yr angen i gyfuno ymgyrchoedd, defnyddio sianelau a chysylltiadau sy'n bodoli eisoes a 'mynd i ble y mae'r bobl yn hytrach na disgwyl iddyn nhw ddod i gyfarfodydd'.

## 3.2 Cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer cymunedau

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg fynegi eu barn am gyfleusterau cymunedol lleol. Dywedodd cyfanswm o 34% bod y cyfleusterau cymunedol yn 'wael', dywedodd 38% eu bod yn 'ddigonol', dywedodd 25% eu bod yn 'dda' a dim ond 3% ddywedodd eu bod yn 'ardderchog'.

**Ffigwr 6. Barn ymatebwyr i'r arolwg am gyfleusterau cymunedol lleol**




Ffynhonnell: Ymatebwyr i'r arolwg; N=653.

Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored. Nodwyd cyfleusterau cymunedol 196 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys safbwyntiau bod:

- Angen gwneud defnydd gwell o gyfleusterau a chanolfannau cymunedol sy'n bodoli eisoes, a rhoddwyd enghreifftiau o ganolfannau, neuaddau a chyfleusterau sy'n bodoli eisoes, y byddai modd eu defnyddio er mwyn darparu mannau cyfarfod cymdeithasol a gwasanaethau ardderchog i bobl o bob oed; a
- Bod nifer o leoliadau neu gyfleusterau wedi cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn aml o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi colli cyllid.

Roedd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn cytuno bod cyfleusterau wedi cau, gan deimlo bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod pobl wedi 'anghofio' am eu hardal nhw. Amlygodd rhai cyfranogwyr y cyferbyniad rhwng cyfleusterau cymunedol sy'n dirywio neu sydd wedi cau yn eu hardal nhw a'r sefyllfa mewn ardaloedd eraill. Er enghraifft, cyfeiriodd sawl cyfranogydd yng Nghaerffili at y cyfleuster cyfyngedig yng nghanol eu tref nhw, a bod hyn mewn cyferbyniad â safle Lido Ponty a oedd wedi ailagor yn ddiweddar. Nododd y cyfranogwyr hyn bod yr hen bwll nofio awyr agored ym Mharc Morgan Jones wedi cynnig cyfleuster da i deuluoedd yn y gorffennol, ond bod hwn wedi cau i bob pwrpas erbyn hyn (mae rhai padiau sblasio ar agor yn ystod yr haf nawr).

*Os oes modd iddynt ei wneud [ail-agor y Lido] ym Mhonty, beth am ei wneud yng Nghaerffili.  (Cyfranogydd mewn grŵp ffocws, benyw, Caerffili)*

Cyfeiriwyd at yr her o gynnal lleoliadau a chyfleusterau cymunedol lleol yn ystod digwyddiadau ymgysylltu staff Llywodraeth Cymru hefyd, wrth i rai cyfranogwyr bwysleisio'r cyswllt rhwng cyfleusterau hamdden ac agweddau eraill ar fywyd cymunedol megis iechyd, morâl ac argraffiadau o'r ardal.  Cyfeiriodd cyfranogwyr at enghreifftiau cadarnhaol o gymunedau'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros reoli asedau cymunedol (e.e.  Capel Bethesda, Penrhiw-ceibr).  Fodd bynnag, pwysleisiwyd pwysigrwydd cyllid a chymorth allanol er mwyn galluogi'r math hwn o fenter cymunedol hefyd.  Pwysleisiwyd manteision posibl trosglwyddo asedau cymunedol ar gydlyniant cymunedol ac 'ymdeimlad o berchnogaeth leol' ond codwyd cwestiynau am y lefelau ymwybyddiaeth o ffynonellau cyllid a chymorth ar gyfer y mathau hyn o weithgareddau mewn cymunedau.  Awgrymodd staff Llywodraeth Cymru y gallai coladu a rhannu enghreifftiau o arfer da ym mherchnogaeth leol asedau cymunedol helpu i hyrwyddo'r math hwn o ddull.

Roedd pobl ifanc yn arbennig yn teimlo bod diffyg cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn lleol, ac ategwyd hyn gan rieni mewn grwpiau ffocws, a nododd bod gormod o'r lleoliadau y byddai modd iddynt fynd â'u plant iddynt y tu allan i'r dref, felly roedd yn rhaid cael car.  Roedd cau safleoedd chwarae o ganlyniad i ddiffyg cyllid yn fater cyffredin a godwyd gan rieni mewn rhai achosion, ac roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y cyfleusterau hyn wedi mynd yn 'ddolur llygad' wrth iddynt ddirywio a chael eu fandaleiddio.  Yn y grwpiau ffocws, mynegwyd safbwyntiau amrywiol am gyfleusterau hamdden lleol.  Roedd preswylwyr mewn rhai ardaloedd (e.e.  Castell-nedd Port Talbot, Torfaen) o'r farn bod ganddynt gyfleusterau hamdden da, yn enwedig y rhai sydd â char.  Fodd bynnag, gwelwyd pocedi o gwynion ynghylch cyfleusterau hamdden ar draws pob grŵp – yn ychwanegol i'r sialensiau o fanteisio ar gyfleusterau hamdden (gan gynnwys chwaraeon, sinema, bwytai) heb gar, y prif bryder a fynegwyd oedd diffyg canolfan ar gyfer gweithgareddau hamdden mewn rhai cymunedau, a'r ffaith nad oedd y lleoliadau hamdden wastad yn cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus.  Cafwyd trafodaeth ddigymell mewn tri o'r grwpiau ffocws mewn ardaloedd ar wahân ynghylch cymdeithasu a'r diffyg lleoedd i fynd allan am noson, a gwelwyd tybiaeth gyffredinol ymhlith cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws mewn sawl ardal bod 'popeth yn llai lleol heddiw, nid oes banciau, cyfleusterau hamdden na llyfrgelloedd gerllaw'.  Barnwyd bod cyfleoedd a chyfleusterau hamdden yn fater pwysig yn ystod gweithgarwch ymgysylltu staff Llywodraeth Cymru, wrth i staff bwysleisio'r cyswllt rhwng hamdden, iechyd a lles.

*Nid oes digon i bobl ifanc ei wneud.  Byddant yn ymgasglu ar y strydoedd gan yfed, ysmygu a thaflu sbwriel ar hyd y lle.  (Grŵp ffocws:  benyw, 25, mae'n gweithio yn Abertawe).*

*Mae'r Clwb Ieuenctid yn rhoi ymdeimlad o berthyn i blant, ac mae'n gallu dangos llwybr gwell i bobl ifanc yn eu harddegau.  Mae'n rhan bwysig iawn o'r gymuned sydd ar goll ar hyn o bryd.  (Grŵp ffocws:  benyw, 24, gweithiwr gofal, Rhondda Cynon Taf)*


*Mae 30 o blant yn mynychu'r cybiau a'r brownis, ac mae gennym restr aros hir. Nid oes digon o le i grwpiau eraill yn y lleoliad. Rydym yn dymuno ymgysylltu â nhw, ond nid oes cyllid ar gael. (Grŵp ffocws: gwryw, 34, di-waith, Rhondda Cynon Taf)*

Roedd trafodaethau'r grwpiau ffocws wedi cynnwys gwasanaethau ehangach a chyfeiriwyd at ddiffyg gorsafoedd heddlu a diffyg presenoldeb gweladwy yr heddlu fel mater gan rai cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws. Yn ogystal ag effeithiau ar dybiaethau ynghylch diogelwch cymunedol, credwyd ei fod yn fater a allai ddylanwadu ar gyflwr cyfleusterau ardal mewn ffordd anuniongyrchol, oherwydd y gallai diffyg presenoldeb yr heddlu arwain at fwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwed i asedau cymunedol.

## 3.3 Gwasanaethau iechyd

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg fynegi eu barn am wasanaethau iechyd lleol. Dywedodd cyfanswm o 30% bod gwasanaethau iechyd yn 'wael', dywedodd 40% eu bod yn 'ddigonol', dywedodd 26% eu bod yn 'dda' a dywedodd 4% eu bod yn 'ardderchog'.

**Ffigwr 7. Barn ymatebwyr i'r arolwg am wasanaethau iechyd lleol**




Ffynhonnell: Ymatebwyr i'r arolwg; N=693.

Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored. Nodwyd iechyd 155 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau bod:

- Iechyd yn elfen allweddol o les, a bod gwella iechyd y rhai sy'n byw yn y Cymoedd yn bwysig ar gyfer dyfodol yr ardal;
- Yr angen am wasanaethau hygyrch lleol (yn enwedig gwasanaethau meddyg teulu ac ysbytai);
- Yr angen am ragor o staff a chyflogau gwell;

- Anawsterau wrth drefnu apwyntiadau a gwasanaethau mynediad mewn ffordd amserol; a
- Chyllid annigonol ar gyfer gofal iechyd er mwyn darparu gwasanaethau i'r boblogaeth gyfan.

---

*Mae angen i ni gyfathrebu'n well, yn enwedig ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol, Ysbytai, Tai gwarchod, meddygfeydd (meddygon), rhannu gwybodaeth.*

*(Ymateb i'r arolwg)*

---

Adroddodd cyfranogwyr grwpiau ffocws mewn dwy ardal yn arbennig (grwpiau yn awdurdodau lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot) am y pwysau ar feddygfeydd meddygon teulu ac ysbytai; pwysau sy'n cael ei waethygu nawr yn eu barn nhw gan ddatblygiadau tai newydd yn lleol. Mewn rhai ardaloedd, cafwyd cwynion bod eu hysbytai lleol wedi cael eu diraddio neu eu bod wedi colli eu hadrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Gwelwyd tybiaeth bod yn rhaid i gleifion deithio'n bell er mwyn cael triniaeth, a'u bod yn aml yn cael eu cyfeirio i ysbyty gryn bellter i ffwrdd yn hytrach na'r un agosaf atynt oherwydd ffiniau byrddau iechyd. O ganlyniad, adroddodd cyfranogwyr grwpiau nad oeddent yn siŵr ble y dylent fanteisio ar wasanaeth Damweiniau ac Achosion Brys yn arbennig. Er enghraifft, roedd cyfranogwyr yn y grŵp yng Nghaerffili wedi mynd i ysbyty Ystrad Mynach yn aml, ond yna, fe'u cyfeiriwyd i ysbyty Brenhinol Gwent oherwydd diffyg staff – roedd hyn yn peri rhwystredigaeth i'r grŵp. Roedd rhai wedi mynd i ysbyty y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd, ond roeddent wedi cael 'pryd o dafod' am beidio mynd i Ystrad Mynach.

## 3.4 Gwasanaethau iechyd meddwl

Rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored. Nodwyd iechyd meddwl 17 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau:

- Nad yw rhai pobl yn teimlo'u bod yn cael cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl;
- Bod angen gwella gwasanaethau iechyd meddwl;
- Bod diffyg gwasanaethau iechyd meddwl ar gael yn gyffredinol;
- Ei bod yn anodd manteisio ar wasanaethau sydd ar gael;
- Bod angen mwy o gymorth iechyd meddwl ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion; a
- Byddai cymorth cymunedol gwell ar gyfer iechyd meddwl yn werthfawr.

---

*Mae angen cyfleusterau iechyd meddwl llawer gwell arnom, ar hyn o bryd, nid oes bron unrhyw rai ar gael ac mae'n anodd iawn manteisio arnynt.*

*Mae angen dybryd am gymorth iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc.*

*(Ymatebion i'r arolwg)*

---

Yn yr un modd, yn ystod y cyfarfodydd cyhoeddus, roedd y cwestiynau a ofynnwyd am wasanaethau iechyd yn tueddu i ganolbwyntio ar anawsterau mynediad ac roedd cau gwasanaethau lleol ac iechyd meddwl yn rhwystr arwyddocaol a godwyd sawl gwaith yn ystod y cyfarfodydd cyhoeddus.

## 3.5 Ansawdd, argaeledd a fforddiadwyedd tai

Cyfeiriodd preswylwyr a fu'n cymryd rhan yn y gweithgarwch ymgysylltu at dai o ansawdd gwael, gan gwyno bod gormod o eiddo gwag (tai ac eiddo masnachol) yn gallu cael effaith niweidiol ar y gymuned ehangach. Roedd nifer fach o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi gwneud sylwadau am ansawdd y tai a'r eiddo gwag yn eu hardal, ac y byddai modd gwneud mwy i annog pobl i adnewyddu eiddo gwag a gwella rhai tai o ansawdd gwael. Nododd preswylwyr yn y grwpiau ffocws hefyd bod gormod o adeiladau'n wag a bod angen eu trwsio, sy'n golygu nad yw'r strydoedd a'r cyffiniau yn edrych yn dda. Pwysleisiodd rhai cyfranogwyr y dylid datblygu'r rhain cyn adeiladu ystadau newydd.

*Annog pobl i adnewyddu eiddo gwag gyda chymorth crefftwyr medrus, yna byw yn yr eiddo hwnnw eu hunain gyda chymorth budd-dal tai, yn hytrach na landlordiaid preifat yn cyflawni'r broses honno. (Ymatebion i'r arolwg)*

*Ceir adeiladau gwag nad ydynt yn cael eu hadnewyddu bob man, ac mae tai newydd yn cael eu hadeiladu drwy'r amser. (Cyfranogydd grŵp ffocws, benyw, 60, gweithiwr dan gontract dim oriau)*

*Nid oes unrhyw swyddi, yna ni fydd gan bobl arian i brynu tai a chaiff rhai eu gadael yn wag ac yn segur am flynyddoedd. (Cyfranogydd grŵp ffocws, benyw, 54, di-waith)*

Rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored. Nodwyd tai 203 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys safbwyntiau bod:

- Pobl yn dewis byw yn y Cymoedd oherwydd cost gymharol resymol tai;
- Mae'r Cymoedd yn cynnig tai fforddiadwy o'u cymharu ag ardaloedd dinesig megis Caerdydd ac Abertawe, a bod hyn wedi annog pobl i aros yn yr ardal;
- Bod prinder tai fforddiadwy ac o ansawdd da o hyd.

Dywedodd nifer o breswylwyr bod gormod o dai newydd yn cael eu hadeiladu yn eu hardal, gan gymryd yr holl le sydd ar gael a lleihau cyfanswm y safleoedd agored yn yr ardal. Nodwyd nad yw'r tai hyn yn fforddiadwy, yn enwedig o ystyried y diffyg cyfleoedd cyflogaeth a nifer y contractau dim oriau yn yr ardal. Yn arbennig, nododd y preswylwyr bod prinder tai ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd mewn angen o hyd, yn ogystal â diffyg tai cymdeithasol a thai gwarchod addas. Yn yr un modd, nododd rhai cyfranogwyr nad oes digon o'r tai newydd yn dai cymdeithasol. Nododd nifer bod angen buddsoddi mewn tai fforddiadwy, ond cafwyd trafodaeth yn y grwpiau bod yn rhaid bod y seilwaith (megis trafnidiaeth a gwasanaethau cyhoeddus) yn gallu ymateb i unrhyw gynnydd ym maint y boblogaeth.

*Byddai sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael i deuluoedd mewn angen o fantais, gan bod tai gwael yn aml yn ychwanegu i'r problemau y mae'r teuluoedd hyn eisoes yn eu hwynebu, ac mae'r diffyg arall yn ymwneud â thai ar gyfer pobl ifanc anghenus, yn enwedig y rhai sy'n gadael gofal. (Ymatebion i'r arolwg)*

*Byddant yn cael eu hadeiladu yn unrhyw le, unrhyw leoliad bach, a byddant yn cael eu hadeiladu...tai crand, os oes gennych chi ychydig arian, gallwch ei fforddio...dim ond os oes gan y ddau riant swyddi sy'n talu'n dda y maent yn fforddiadwy. (Cyfranogydd grŵp ffocws, benyw, gofalwr, 30au)*


*Nid oes unrhyw siawns o gynilo er mwyn prynu tŷ neu ddarparu ar gyfer eich teulu ar gontract 0-awr, a dyna'r unig beth sydd ar gael yma ar hyn o bryd. (Cyfranogydd grŵp ffocws, gwryw, 25, athro).*

Mynegwyd nifer fach o sylwadau tebyg yn ystod y sesiynau ymgysylltu â staff ac roedd tai yn bwynt ymylol mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Nododd staff bod safon y tai mewn rhai ardaloedd yn wael, gan gynnwys ym maes tai cymdeithasol, er gwaethaf Safon Ansawdd Tai Cymru, a bod sicrhau bod gan bobl gartrefi diogel ac o ansawdd da yn allweddol ar gyfer lles a bywyd teuluol.

## 3.6 Trafnidiaeth gyhoeddus a theithio

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg fynegi eu barn am wasanaethau trafnidiaeth lleol. Dywedodd cyfanswm o 44% bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn 'wael', dywedodd 28% eu bod yn 'ddigonol', dywedodd 24% eu bod yn 'dda' a dim ond 4% ddywedodd eu bod yn 'ardderchog'.

**Ffigwr 8. Barn ymatebwyr i'r arolwg am wasanaethau trafnidiaeth lleol**




Ffynhonnell: Ymatebwyr i'r arolwg; N=707.

Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored.  Nodwyd trafnidiaeth 502 gwaith yn yr ymatebion hyn.  Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau:

- Ynghylch ansawdd gwael trafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol;
- Yr angen i wella seilwaith y ffyrdd, yn enwedig o ran sicrhau rhwydwaith da o ran y ffyrdd ar draws y Cymoedd; Angen gwella llwybrau trenau a bysiau;
- Bod tagfeydd traffig yn broblem sylweddol sy'n wynebu seilwaith trafnidiaeth y Cymoedd;
- Bod trafnidiaeth yn afresymol o ddrud ar brydiau; a
- Bod anawsterau trafnidiaeth yn peri iddi fod yn heriol i breswylwyr fanteisio ar gyfleoedd gwaith, cymorth a gwasanaethau y gallent fod ar gael yn agos i'w hardaloedd lleol.

Yn y grwpiau ffocws, gwelwyd cymysgedd o farn am drafnidiaeth yn aml, hyd yn oed o fewn ardal, wrth i rai ganmol y gwasanaeth bws ac wrth i eraill gwyno bod y gwasanaethau'n cael eu lleihau neu nad oedd yn mynd i unrhyw le ac eithrio'r prif ganolfannau.  Roedd eraill yn cwyno am y diffyg cysylltiadau trên, yn enwedig gyda'r hwyr.  Adroddwyd bod trafnidiaeth gyhoeddus yn well i'r dinasoedd mawr ac oddi yno (Casnewydd, Caerdydd ac Abertawe), er ei fod yn araf ac yn annibynadwy i rai.  Fodd bynnag, gwelwyd cwynion unfrydol ym mhob ffynhonnell ymgysylltu am y ffaith bod trafnidiaeth ar draws y Cymoedd a rhwng cymunedau yn wael neu heb fod yn bodoli.  Ymhellach, 'ni cheir cysondeb o ran y llwybrau bysiau, byddant yn newid y rhifau ac yn canslo gwasanaethau heb roi rhybudd'.

*Pe byddai modd i arian cyhoeddus ganolbwyntio ar sicrhau bod y seilwaith trafnidiaeth yn iawn, mae fel rhywbeth o'r trydydd byd ar hyn o byd, boed yn rheilffyrdd neu'n ffyrdd, ac mae angen i'r llywodraeth ar lefel genedlaethol, ar lefel Cymru ac ar lefel leol, gydweithio mewn ffordd fwy effeithiol."*

*Rhaid i gysylltiadau trafnidiaeth wella er mwyn ehangu'r cyfleoedd yn y gweithle.*

*(Ymatebion i'r arolwg*

Yn ystod rhai o'r cyfarfodydd cyhoeddus, mynegwyd pwyntiau ynghylch y ffaith bod trafnidiaeth ar draws y rhanbarthau yn ddi-drefn ac yn gostus, a mynegwyd pryderon tebyg yn ystod sesiynau ymgysylltu â staff Llywodraeth Cymru, a ddywedodd bod 'angen gwneud buddsoddiad mewn cysylltiadau trafnidiaeth er mwyn annog twf'.  Barnwyd bod trafnidiaeth gyhoeddus ddi-drefn yn peri anhawster i hen bobl fanteisio ar wasanaethau cymorth, a'i fod yn ei wneud yn anodd, yn araf ac yn ddrud i bobl ifanc sy'n ceisio manteisio ar addysg bellach.

*Rhaid i mi newid o leiaf unwaith er mwyn cael trên neu fws i unrhyw le yn y Cymoedd.  (Cyfranogydd grŵp ffocws, benyw, 25, gwas sifil)*

*Mae trafnidiaeth yn hollbwysig a hon yw'r flaenoriaeth bennaf o ran buddsoddi, gan na fyddai unrhyw gwmni mawr yn dod i'r Cymoedd oherwydd y trafnidiaeth gwael. (Cyfraniad yn ystod cyfarfod cyhoeddus)*

***Traffig ar y ffyrdd***
Esboniodd preswylwyr ym mhob ardal ei bod yn hanfodol cael car er mwyn manteisio ar ystod lawn y gwasanaethau, hamdden a chyflogaeth. Disgrifiwyd bod y ffyrdd yn 'iawn' ond bod y traffig yn aml yn 'stopio'n llwyr yn ystod oriau brig os bydd rhywbeth yn digwydd.' Dywedodd ymatebwyr i'r arolwg bod angen gwella seilwaith y ffyrdd, yn enwedig o ran sicrhau rhwydwaith ffyrdd da ar draws y Cymoedd. Dywedodd nifer ohonynt hefyd bod tagfeydd traffig yn broblem arwyddocaol y mae seilwaith trafnidiaeth y Cymoedd yn ei wynebu, a bod trenau neu fysiau cyhoeddus yn gallu bod yn rhy ddrud. Yn ogystal, roedd preswylwyr yn y grwpiau ffocws yn cwyno bod 'y ffyrdd bach yn ofnadwy' ac yn gyffredinol 'ni all y ffyrdd ddelio â chymaint o bobl, gan bod y trafnidiaeth gyhoeddus mor wael'. Nodwyd bod yr anawsterau trafnidiaeth yn ei gwneud yn heriol i breswylwyr fanteisio ar gyfleoedd gwaith, cymorth a gwasanaethau y gallent fod yn agos i'w hardaloedd lleol.

Gwnaethpwyd cwynion mewn sawl un o'r grwpiau ffocws am gostau parcio, y barnwyd eu bod yn effeithio ar y masnachu yng nghanol trefi. Yn ogystal, codwyd taliadau parcio 'afresymol' yn ystod trafodaethau fforwm a sesiynau ymgysylltu staff Llywodraeth Cymru, er na chafwyd consensws ynghylch a ddylid ymgyrchu dros gael mwy o safleoedd parcio am ddim neu beidio.

*Mae'r ffyrdd yn rhwystr i fusnesau. Mae agen buddsoddi mewn cysylltiadau trafnidiaeth er mwyn annog twf – mae angen i hyn ddigwydd ar draws y Cymoedd. Ceir disgwyliad bob amser y dylai pobl deithio i Gaerdydd i weithio – pam ddylai fod yn rhaid iddynt wneud hynny? Ac yn aml, nid oes modd gwneud hynny mewn amser rhesymol. (Cyfarfod ymgysylltu staff Llywodraeth Cymru).*

*Rhaid i chi gael car er mwyn mynd o A i B yn y Cymoedd, ond nid oes nifer fawr o leoedd parcio o gwbl. (Cyfranogydd grŵp ffocws, gwryw, 25, gweithiwr diwydiant)*

*Os oes modd i chi wella'r ffyrdd, credaf y byddwch yn gweld mwy o bobl yn aros yn lleol, mwy o fusnes yn dod i mewn, bydd yn cael effaith caseg eira. (Cyfranogydd grŵp ffocws, 30au, gwryw, di-waith).*

***Teithio a thrafnidiaeth i'r gwaith***
Roedd preswylwyr yn y grwpiau ffocws yn teimlo bod ystadau diwydiannol yn cael eu gwasanaethu'n wael gan drafnidiaeth gyhoeddus a bod hyn yn aml yn golygu ei bod yn anodd i'r rhai heb gar gyrraedd cyfleoedd cyflogaeth. Roedd y mater hwn ynghylch hygyrchedd swyddi yn fater a godwyd mewn sawl grŵp, a nododd y preswylwyr ifanc yn arbennig bod swyddi manwerthu ac mewn caffis yn tueddu i fod y tu allan i'r trefi, ac roeddent yn ddibynnol ar rieni neu ffrindiau am lifft gan nad oedd cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn cyd-fynd ag oriau sifft.

Gwelwyd barn gyffredin ar draws yr holl grwpiau ffocws 'bod yn rhaid i chi deithio er mwyn cael swydd dda', ac 'os ydych chi eisiau cael swydd broffesiynol, nid oes dewis, rhaid i chi fynd i dref fawr neu ddinas'. Barnwyd bod yr arfer hwn o gymudo o'r Cymoedd yn rhoi pwysau ar systemau trafnidiaeth, yn enwedig y ffyrdd, a barnwyd ei fod yn effeithio ar dai a bywyd cymunedol. Yn ogystal, mae'n golygu na all nifer o bobl gyrraedd y gwaith o fewn amser rhesymol, heb sôn am wneud trefniadau gofal plant i gyd-fynd â hynny.

*I used to work in McDonalds, which was 15-minute drive away, but it would take me three buses to get there. (Focus group participant, female, 21, care worker)*

*Public transport around Cwmbran is good, but road network across Valleys in general is poor – bad condition, bad network of roads and congested. Infrastructure needs improving to encourage businesses. (Focus group participant)*

# 4. Fy nghymuned leol


***Themâu cyffredin am gymunedau lleol***

- Ceir ymdeimlad o falchder ynghylch byw yn y Cymoedd.
- Bernir bod ardaloedd y Cymoedd yn ddiogel ac yn gyfeillgar, lle y ceir ymdeimlad cryf o gymuned.
- Ceir cefn gwlad prydferth a threfi deniadol, ond tybiaeth nad ydym yn manteisio i'r eithaf ar y dreftadaeth ddiwylliannol a'r adnoddau naturiol cyfoethog
- Roedd preswylwyr yn dymuno gweld canol trefi yn cael eu gwella.
- Roedd nifer yn galw am weithgarwch gwell er mwyn cynnal a chadw'r amgylchedd naturiol, er budd pobl leol ac er mwyn cynyddu twristiaeth.

## 4.1 Tybiaethau ac ymdeimlad o falchder

Mynegwyd ymdeimlad o falchder gan y preswylwyr ynghylch byw yn y Cymoedd, a dywedodd tri chwarter yr ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn falch o fyw neu o weithio yn y Cymoedd.  Nododd cyfanswm o 43% eu bod yn teimlo'n 'falch iawn' eu bod yn byw neu'n gweithio yn y Cymoedd, nododd 32% eu bod yn 'weddol falch', nododd 19% 'nad ydynt yn teimlo'n arbennig o falch' a nododd 4% 'nad ydynt yn teimlo'n falch o gwbl'.

**Ffigwr 9. Balchder ymatebwyr i'r arolwg ynghylch y ffaith eu bod yn byw a/neu'n gweithio yn y Cymoedd**




Ffynhonnell:  Ymatebwyr i'r arolwg;  N=790.

Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored.  Mynegwyd 487 o sylwadau gan yr ymatebwyr ynghylch pam eu bod yn teimlo'n falch neu pam nad ydynt yn teimlo'n falch o'r ffaith eu bod yn byw yn y Cymoedd.  Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau o:

- Ymdeimlad cryf o gymuned yn eu hardaloedd, gan gynnwys natur gyfeillgar a chroesawgar y bobl sy'n byw yn y Cymoedd a pharodrwydd y preswylwyr i weithio'n galed a chynorthwyo ei gilydd yn ystod cyfnodau anodd;
- Treftadaeth a gwreiddiau diwylliannol cadarn yn y Cymoedd, yn enwedig os oeddent wedi cael eu geni a'u magu yn yr ardal;
- Harddwch yr amgylchedd naturiol fel ffynhonnell balchder arbennig;  ac
- Mewn ffordd negyddol, rhywfaint o amddifadedd cymdeithasol, diffyg buddsoddiad a diffyg buddsoddiad addas yn yr ardal.

Roedd hi'n amlwg o ymatebion y preswylwyr i'r arolwg ac o drafodaethau'r grwpiau ffocws bod cryn dipyn o'r ymdeimlad hwnnw o falchder yn dod o'r ymdeimlad cryf o gymuned yn eu hardal, gan gynnwys natur gyfeillgar a chroesawgar y bobl sy'n byw yn y Cymoedd.  Yn arbennig, ceir y dybiaeth bod pobl yn fodlon gweithio'n galed a chynorthwyo ei gilydd yn ystod cyfnodau anodd.  Yn ogystal, nododd nifer eu bod yn teimlo'n falch oherwydd bod ganddynt dreftadaeth a gwreiddiau diwylliannol cryf yn y Cymoedd, yn enwedig os oeddent wedi cael eu geni a'u magu yn yr ardal.  Yn ogystal, pwysleisiodd yr ymatebwyr harddwch yr amgylchedd naturiol fel ffynhonnell balchder arbennig.  Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr nad ydynt yn falch o'r amddifadedd cymdeithasol, y diffyg buddsoddiad a'r diffyg buddsoddiad addas yn yr ardal.

---

*Rydw i'n falch o'r ffaith fy mod i'n byw yn y Cymoedd oherwydd y bobl, cymeriad yr ardal, y dreftadaeth a'r gwreiddiau teuluol.*

*Mae fy nheulu wastad wedi byw yn y Cymoedd ers cenedlaethau ac mae pobl yn ymboeni am ei gilydd o hyd.*


*Rydw i'n falch o dreftadaeth yr ardal a chyfeillgarwch y bobl, ond nid ydw i'n falch o'r seilwaith sy'n cynnal y Cymoedd neu'r gwasanaethau.*

*(Ymatebion i'r arolwg)*

---

Gofynnwyd i gyfranogwyr y grŵp ffocws drafod eu tybiaethau o Gymoedd de Cymru a phan ofynnwyd iddynt roi crynodeb o'u cymuned leol ac o Gymoedd de Cymru mewn tri gair, roedd y cyfranogwyr yn tueddu i gyfeirio at agweddau cadarnhaol megis 'cymuned agos', 'natur gyfeillgar' a 'theulu' yn fwy cyson (gweler ffigwr 1).  Yn aml, nododd preswylwyr bod y Cymoedd yn cael eu hystyried fel man lle y ceir ymdeimlad cryf o gymuned a 'theimlad o fod yn gymuned fach'; roeddent yn pwysleisio bod cymunedau'n cael eu hystyried fel rhai croesawgar a chyfeillgar.  O'r herwydd, roeddent yn teimlo bod y Cymoedd yn lleoliad diogel a braf ar gyfer bywyd teuluol yn gyffredinol.

**Ffigwr 10. Cwmwl geiriau wedi'i seilio ar ymatebwyr cyfranogwyr y grwpiau ffocws pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio bywyd yng Nghymoedd de Cymru mewn tri gair [2]**




Ffynhonnell: Cyfranogwyr grwpiau ffocws; N=71

Pwysleisiodd nifer o breswylwyr y ffaith bod y 'cefn gwlad golygfaol' yn agwedd gadarnhaol, a chyfeiriodd nifer at yr ardal fel ardal 'dawel', er i rai (pobl ifanc yn arbennig), roedd hon yn nodwedd llai cadarnhaol. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar y cefn gwlad yn y Cymoedd; pwysleisiodd y cyfranogwyr y ffaith bod y Cymoedd yn cynnig mannau agored prydferth. Pwysleisiwyd y gair 'canolog' gan nifer o breswylwyr, gan gyfeirio at hygyrchedd yr ardal i ddinasoedd ac ardaloedd gwledig gerllaw, fodd bynnag, roedd gan ymatebwyr eraill bryderon ynghylch diffyg hygyrchedd yn gyffredinol ar draws y Cymoedd ac arwahanrwydd cysylltiedig.

*Ymdeimlad o gymuned fach, oherwydd ta ble y byddwch yn mynd yn y Cymoedd, os ydynt yn eich adnabod neu beidio, byddant yn eich croesawu i'r gymuned yn gyffredinol. (gwryw, 20au, di-waith)*

Roedd sawl unigolyn wedi dychwelyd i'r Cymoedd ar ôl treulio cyfnod yn byw ac yn gweithio mewn man arall, ac roeddent wedi cael eu tynnu gartref gan yr ymdeimlad o gymuned a theulu. Nododd rhai cyfranogwyr bod digon o weithgareddau cymunedol ar gael i blant a theuluoedd. Fodd bynnag, roedd preswylwyr eraill yn teimlo bod nifer o gyfleusterau hamdden wedi cau dros y blynyddoedd, a bod rhai digwyddiadau cymunedol wedi stopio o ganlyniad i doriadau i gyllid Cymunedau yn Gyntaf; roeddent yn cwyno bod cyfleusterau megis sinemâu, arcedau difyrion, pyllau nofio a chyfleusterau chwarae yn aml mewn canolfannau 'y tu allan i'r dref' nawr megis Nantgarw a Merthyr, gan olygu eu bod yn llai hygyrch i nifer o deuluoedd.

Mynegwyd nifer fach o sylwadau a oedd yn ymwneud â bywyd cymunedol mewn cyfarfodydd cyhoeddus: pwysleisiodd un myfyriwr bod y clwb ieuenctid lleol wedi cynnig

[2] Mae cymylau geiriau yn ddull gweledol o ddangos amlder geiriau a ddefnyddir gan gyfranogwyr. Po fwyaf yw maint y gair yn y ddelwedd, y mwyaf cyson y'i ddefnyddiwyd gan gyfranogwyr.

cyfleoedd niferus iddi a phwysleisiodd aelod arall o'r cyhoedd bwysigrwydd cymunedau'n teimlo ymdeimlad o berchnogaeth o'u hasedau cymunedol.

*Credaf ei bod yn bwysig iawn amlygu nifer y cyfleoedd a gefais gan fy nghlwb ieuenctid wrth archwilio gwahanol lwybrau a pha mor wych yw'r gweithwyr ieuenctid yn fy nghlwb ieuenctid, gan eu bod wedi agor cymaint o lwybrau a chyfleoedd gyrfa eraill i mi, nad oeddwn yn sylweddoli eu bod yn bodoli.*

*Mae cyllid wedi dod i mewn, rydych chi wedi cael rhannau rhanbarthol a miliynau yn cael eu rhoi i'r ardal hon, ond nid yw'r bobl hyn wedi ei weld. Mae pobl yn yr ardal hon yn awyddus i ddatblygu eu cymuned eu hunain, ac maent yn dymuno cael yr adnoddau a'r cymorth. Nid yw'n ymwneud ag arian, mae'n ymwneud â chymuned.*

*Mae pobl yn yr ardal hon yn awyddus i ddatblygu eu cymuned eu hunain, ac maent yn dymuno cael yr adnoddau a'r cymorth. Nid yw'n ymwneud ag arian, mae'n ymwneud â chymuned.*

*(Sylwadau a wnaethpwyd yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus)*

Nid oedd y disgrifiad o'r Cymoedd a'u hardaloedd yn hollol gadarnhaol, fodd bynnag, ac roedd nifer o gyfranogwyr grwpiau ffocws wedi cyfeirio at agweddau llai cadarnhaol hefyd megis 'tlodi', 'amddifadedd', 'di-raen' a 'diffyg cyfleoedd'. Yn ogystal, nododd y cyfranogwyr dybiaeth o'r Cymoedd ymhlith pobl arall fel ardal lle y gwelir amddifadedd cymharol, diweithdra uchel ac economi sy'n dirywio. Nodwyd bod pocedi o dlodi ar draws y Cymoedd a bod rhai trefi neu ardaloedd yn eithaf di-raen. Yn yr un modd, nodwyd tybiaeth ganddynt bod rhai ardaloedd yn rhai 'garw' a'u bod yn cael anhawster gyda phroblemau cyffuriau a/neu iechyd.

*Ceir llawer o ddiweithdra, trafnidiaeth a gwasanaethau gwael, ac mae'r ardal yn un dlawd ar y cyfan. (Grŵp ffocws: gwryw, 34, athro, yn byw y tu allan i'r Cymoedd)*

*Mae pawb o'r farn bod y Cymoedd yn lle di-ddyfodol heb unrhyw gyfleoedd. Mae'r sylw negyddol yn y newyddion yn ein portreadu fel pobl anghyflogadwy. (Grŵp ffocws: gwryw, 45, datblygwr eiddo hunangyflogedig)*

## 4.2 Manteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol

Rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored. Nodwyd treftadaeth ac adnoddau naturiol 336 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau:

- Bod adnoddau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol yn fantais allweddol ac yn rheswm dros fyw neu weithio yn y Cymoedd;
- Bod diogelu adnoddau naturiol yn elfen bwysig o ran y cymorth ar gyfer y Cymoedd, gan gynnwys addysg preswylwyr ac ymwelwyr ynghylch gwerth yr amgylchedd naturiol;
- Bod gwella bywyd cymunedol yn y Cymoedd yn golygu gwneud defnydd gwell o'r adnoddau naturiol a diwylliannol sydd eisoes yn bodoli yn y Cymoedd; ac

- Y gallai mwy o fuddsoddiad neu adnoddau helpu i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu cynnal yn dda (megis trwy glirio sbwriel) a'u diogelu.

*Cysylltu ac annog rhwydwaith o brosiectau treftadaeth gymunedol, hamdden ac amgylcheddol sy'n manteisio ar ein hamgylchedd rhyfeddol.*

*Er fy mod yn byw mewn ardal a arferai fod yn ardal cloddio glo, mae natur wedi adennill yr hen byllau ac mae'r fferm leol yn darparu caeau prydferth o flodau gwyllt sy'n annog bywyd gwyllt.)*

Roedd gan gyfranogwyr y grwpiau ffocws safbwyntiau cymysg ynghylch yr amgylchedd ffisegol yng Nghymoedd y de.  Roedd sawl un wedi amlygu hygyrchedd da adnoddau naturiol yn y Cymoedd, gan amlygu pa mor ddeniadol yw ardaloedd megis Coedwig Afan a Chwm Carn.  Roedd nifer o gyfranogwyr o'r farn bod rhai llwybrau gwledig braf yn eu hardal ac yn gyffredinol, bod parciau'n cael gofal da, fodd bynnag, gwelwyd tybiaeth nad ydym yn manteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol cyfoethog a threftadaeth ddiwylliannol y Cymoedd. Er enghraifft, roedd un cyfranogydd o'r farn y dylid marchnata'r ardal yn fwy fel y caiff Coedwig Dean ei marchnata, er mwyn denu pobl o'r tu allan, a nododd un arall y gallai creu gwersyll i blant a phobl ifanc (yn debyg i wersyll yr Urdd yn Llangrannog) fod o fudd wrth hyrwyddo tybiaeth fwy cadarnhaol o'r ardal.

Gwnaethpwyd sylwadau am yr angen i wella ardaloedd cyhoeddus, a nododd rhai cyfranogwyr bod rhai adeiladau wedi mynd yn ddi-raen, bod eraill wedi mynd â'u pen iddynt, a bod angen gwneud cryn dipyn o waith arnynt i'w gwella, a bod hyn yn creu argraff wael pan fydd ymwelwyr yn cyrraedd ardal.

*Rydw i'n gwirfoddoli ac yn rhedeg dosbarth dawns yn y gymuned.  Mae angen gwneud gwaith ar yr adeilad, ac mae golwg blinedig arno, yn wahanol i'r adeiladau a ddefnyddir yn Abertawe, sy'n fodern ac sy'n edrych yn dda. (Grŵp ffocws:  benyw, 25, gwas sifil)*


*Mae'r hen adeiladau mawr a gwag yn siom i'r dref ac yn peri i'r ardal edrych yn ddi-raen.  (Ymateb i'r arolwg)*

Mynegwyd pryderon gan unigolion a oedd yn mynychu'r cyfarfodydd cyhoeddus ynghylch diffyg balchder ac ysbryd cymunedol mewn ardaloedd, lle nad yw'r parciau mewn cyflwr da a lle y mae ysbwriel a thipio anghyfreithlon yn fater arwyddocaol.  Awgrymwyd y byddai glanhau rhai ardaloedd yn sylweddol yn helpu, ac mae newidiadau lle y cesglir biniau'n llai aml a lle y mae trefniadau gwaredu gwastraff wedi cael eu tynhau, wedi arwain at gynnydd mewn tipio anghyfreithlon.  Awgrymwyd y dylid ystyried cynllun lle y mae cynghorau'n casglu gwastraff aelwydydd am bris is/isel.

## 4.3 Cynyddu twristiaeth

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg fynegi eu barn am dwristiaeth a threftadaeth yn eu hardal leol. Dywedodd cyfanswm o 30% bod twristiaeth a threftadaeth yn 'wael', dywedodd 30% eu bod yn 'ddigonol', dywedodd 32% eu bod yn 'dda' a dim ond 7% ddywedodd eu bod yn 'ardderchog'.

**Ffigwr 11. Barn ymatebwyr i'r arolwg am dwristiaeth a threftadaeth**




Ffynhonnell: Ymatebwyr i'r arolwg; N=674

Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored. Nodwyd twristiaeth 90 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau:

- Y dylai ffocws pennaf buddsoddi ganolbwyntio ar dwristiaeth;
- Bod harddwch naturiol a'r cyfleoedd am weithgarwch yn yr awyr agored yn y Cymoedd (a drafodwyd yn adran 4.2) yn cynnig sylfaen dda i dwristiaeth;
- Y gellid annog twristiaeth trwy adfywio canol trefi a chynnal yr amgylchedd naturiol er mwyn annog mwy o ymwelwyr; ac
- Y bydd canolbwyntio ar dwristiaeth yn datblygu mwy o swyddi, gan annog buddsoddiad pellach gan fusnesau.

*Mae trefi a phentrefi'r Cymoedd yn barod ar gyfer y diwydiant twristiaeth. Ar gyfer beicio mynydd, canolfannau dringo, gwyliau cerdded, cyrsiau coginio cymreig, cyrsiau paentio.*

*Parhau i hyrwyddo harddwch naturiol yr ardal a'r cyfleoedd hamdden a thwristiaeth. Mae'n em cudd ac nid Caerdydd yw canol y byd."*

*Mae angen manteisio i'r eithaf ar dwristiaeth a buddsoddi ynddo, oherwydd y gallai greu nifer fawr o swyddi yn agosach i'r ardal leol.*

*(Ymatebion i'r arolwg)*


Roedd twristiaeth yn bwnc trafod yn y grwpiau ffocws a'r cyfarfodydd cyhoeddus hefyd, ac roedd y ffaith bod 'angen hysbysebu treftadaeth ddiwylliannol yn well' yn thema gyffredin mewn nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu. Cyfeiriodd preswylwyr mewn sawl ardal at asedau twristiaeth a diwylliannol lleol sy'n cael eu cynnal yn wael, nad oes arwyddion yn cyfeirio pobl atynt, y maent yn anodd i'w cyrraedd neu mewn perygl o gau. Ystyriwyd bod twristiaeth yn ffordd o annog rhywfaint o gyflogaeth yn y grwpiau hefyd.

> *Dylech chi fod yn ystyried meysydd twristiaeth, dylech chi fod yn ystyried meysydd treftadaeth, dylech chi fod yn ystyried meysydd diwylliant...chwaraeon hefyd.*
>
> *(Cyfarfod cyhoeddus)*

## 4.4 Mae angen ailbennu ffocws canol trefi

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg fynegi eu barn am ganol eu trefi lleol. Dywedodd cyfanswm o 57% bod canol trefi yn 'wael', dywedodd 29% eu bod yn 'ddigonol', dywedodd 13% eu bod yn 'dda' a dim ond 1% ddywedodd eu bod yn 'ardderchog'.

**Ffigwr 12. Barn ymatebwyr i'r arolwg am ganol trefi lleol**




Ffynhonnell: Ymatebwyr i'r arolwg; N=674.

Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored. Nodwyd canol trefi 117 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau:

- O'r angen i adfywio canol trefi yn y Cymoedd;
- ddirywiad canol trefi a strydoedd mawr dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i ddirywiad busnesau bach;
- O'r ffaith ei bod yn ymddangos bod pobl wedi cefnu ar ganol trefi a'u bod yn mynd yn 'ddi-raen' o ganlyniad;

- Bod angen buddsoddiad, cymorth ac anogaeth er mwyn dwyn busnesau lleol bach yn ôl i ganol trefi; a
- Bod potensial y gallai gweithgarwch o'r fath i ddatblygu canol trefi ddenu mwy o fusnesau ac ymwelwyr i'r ardal.

*Mae angen datblygu strategaeth gydlynol, gan gychwyn gyda buddsoddiad mewn seilwaith a chan anelu i adfywio canol trefi. Mae hyn yn golygu symud y ffocws o ddatblygiadau siopa y tu allan i'r dref i fusnesau mwy brodorol.*

*Edrychwch ar ganol y trefi, y mae rhai ohonynt yn dirywio'n gyflym. Byddai modd cyflawni hyn trwy ddenu manwerthwyr adnabyddus i ganol trefi, yn hytrach nag i barciau y tu allan i'r dref.*

*(Ymatebion i'r arolwg)*

Wrth fynegi sylwadau am ganol trefi, soniodd rhai cyfranogwyr y grwpiau ffocws bod nifer o siopau wedi cau yn eu hardaloedd nhw, ac na fydd nifer o fusnesau newydd yn aros ar agor am gyfnod hir. Nid yw'r ardal yn denu niferoedd mawr o siopwyr, felly mae siopau'n ei chael hi'n anodd aros ar agor.

*Mae busnesau'n newid dwylo yn gyson ar y stryd fawr, ni fydd siopau'n para'n hir. Nid oes cymaint o bobl yn dod i ganol y dref mwyach. (Grŵp ffocws: Benyw, 34, nyrs)*

*Mae nifer fawr o siopau yng nghanol y dref wedi cau, a cheir problemau gydag ardrethi busnes y cyngor. Ceir diffyg adfywio yn y Cymoedd. (Grŵp ffocws: Gwryw, 52, gwas sifil)*

Trafodwyd dyfodol canol trefi yn ystod y cyfarfodydd cyhoeddus a theimlwyd bod angen i ganol trefi newid ac addasu i'r byd modern, gan ystyried cyfleoedd sy'n ymwneud â llecynnau wifi a symud i ffwrdd o'r dybiaeth draddodiadol ynghylch sut y datblygwyd canol trefi yn y gorffennol.

*Mae pob un ohonom yn gwybod am gadwyni o aneddiadau lle y mae ansawdd yr amgylchedd adeiledig yn wael iawn. Yn ogystal, mae gennym lu o bobl ifanc sydd bron marw eisiau byw mewn trefi, nid allan ar ystadau, ac sy'n dymuno cael cyfleusterau cyfathrebu, trafnidiaeth a chysylltedd, sy'n dymuno cael canolbwynt Wi-Fi, caffis, campfeydd bach, cyfleoedd hamdden, sy'n dymuno cymysgu ar y strydoedd yn ein trefi, a chredaf bod modd i ni ymateb i gymaint o agendâu os byddwn yn ystyried o ddifrif gweithgarwch adfywio cyflym a bach mewn canol trefi, adfywio tai uwchben siopau yn gyflym, mewn adeiladau segur, gan drawsnewid pob math o adeiladau. (Aelod o'r cyhoedd, cyfarfod cyhoeddus)*

Yn yr un modd, codwyd y mater yn ystod gweithgarwch ymgysylltu staff Llywodraeth Cymru, a gofynnwyd cwestiynau am rôl rhai canol trefi sy'n newid, a goblygiadau eu

dyfodol. Roedd rhai o'r farn bod dirywiad canol trefi yn adlewyrchu tuedd fyd-eang ehangach ac y dylid cofio hyn wrth gynllunio polisi.

## 4.5 Ynni adnewyddadwy

Rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored. Nodwyd ynni adnewyddadwy 12 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau bod gan y Cymoedd botensial da o ran ynni adnewyddadwy a bod angen cymorth a gweithgarwch datblygu pellach er mwyn manteisio ar y cyfle hwn.

> *Gallai gweithgynhyrchu, seilwaith ac ynni adnewyddadwy fod yn feysydd sy'n cynnig potensial. A fyddai modd i'r Cymoedd ddatblygu i fod yn ganolbwynt gwyrdd neu'n ganolbwynt ynni adnewyddadwy newydd?*
>
> *(Ymateb i'r arolwg)*

Roedd y sector ynni adnewyddadwy yn ffocws trafodaeth yn ystod un o'r cyfarfodydd cyhoeddus. Roedd rhai yn barnu bod hwn yn sector a allai gynnig cyfleoedd da i gymunedau lleol. Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo hefyd y bu cryn dipyn o fuddsoddiad tramor mewn ynni gwynt a solar, nad oedd wastad wedi cynnig budd i'r gymuned leol. Roedd rhai cyfranogwyr yn tybio y byddai cyfleoedd yn cael eu colli os na fyddai Tasglu'r Cymoedd yn rhoi blaenoriaeth i'r cam o fanteisio ar y sector hwn.

## 4.6 Cynnal a chadw'r amgylchedd ffisegol yn well

Amlygwyd y tirwedd naturiol deniadol gan breswylwyr, gan gyfeirio at fanteision byw gerllaw parciau a mannau gwyrdd. Barnwyd bod hon yn agwedd ddeniadol o'r ardal i rieni yn arbennig, ond fe'i codwyd gan nifer o bobl ifanc hefyd fel agwedd gadarnhaol ar fyw yng Nghymoedd de Cymru.

> *Mae'n pwyslais ar y teulu a cheir mannau gwyrdd – mae digon i'w wneud gydag aelodau teulu iau a hŷn. Bydd y gwyliau ysgol yn dechrau ac ni fyddwch chi fyth yn gorfod chwilio am fannau i fynd gyda'r plant. (Grŵp ffocws – gwryw, di-waith, 30au)*

Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr i'r arolwg fynegi sylwadau ychwanegol mewn cwestiynau penagored. Nodwyd cynnal yr amgylchedd ffisegol 142 gwaith yn yr ymatebion hyn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys tybiaethau o'r:

- Angen i gynnal yr amgylchedd ffisegol mewn ffordd fwy effeithiol, gan gynnwys yr amgylchedd gwledig, canol trefi a pharciau;
- Yr angen i gynnal glendid ac adfywio canol trefi;
- Yr angen i ddiogelu'r amgylchedd naturiol rhag niwed;
- Yr angen i ganolbwyntio ar dipio anghyfreithlon ac ysbwriel mewn canol trefi ac yn yr amgylchedd naturiol;

- Yr angen i unigolion a busnesau ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal yr amgylchedd ffisegol, yn ogystal â'r angen i wasanaethau cyhoeddus ddelio mewn ffordd fwy effeithiol gyda materion megis tipio anghyfreithlon.

---

*Mae tipio anghyfreithlon yn fater mawr sy'n effeithio ar sut y mae pobl o'r tu allan yn gweld y Cymoedd, ac mae'n difetha'r cefn gwlad prydferth, gan roi argraff wael i ymwelwyr, cwsmeriaid a busnesau sy'n ystyried defnyddio'r ardal.*

*Credaf y dylid delio â rhai perchnogion ffatrïoedd oherwydd cyflwr eu safleoedd. Mae rhai ohonynt yn cyflwyno amgylchedd brwnt lle nad yw'n ymddangos bod unrhyw un yn gofalu amdano, a byddai'n cael budd gan waith tirlunio a chynnal a chadw cyffredinol. Dylai fod rheidrwydd arnynt i helpu'r amgylchedd trwy ofalu am eu safleoedd.*

*Gwnaethpwyd cymaint o welliannau hyd yn hyn ym Merthyr (ac yn y Pentrefi o gwmpas), fodd bynnag, mae cyfanswm y sbwriel ar ochr y ffordd, yn enwedig ar y slipffordd ac yn ffordd goat mill yn ofnadwy.*

*(Ymatebion i'r arolwg)*

---

Roedd nifer o breswylwyr, yn enwedig yn y grwpiau ffocws, yn teimlo bod angen cynnal yr amgylchedd ffisegol yn well. Codwyd materion ynghylch sbwriel ar strydoedd ochr, tipio anghyfreithlon a llosgi sbwriel mewn ardaloedd cefn gwlad gan rai cyfranogwyr. Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn teimlo bod angen gwella rhai ardaloedd, gan gynnwys tacluso parciau a mannau cyhoeddus. Gwnaethpwyd y sylwadau canlynol:

---

*Mae llwybr hyfryd gerllaw, ger y rhaeadrau, ond mae annibendod bob man. Pobl ifanc yn eu harddegau yn cynnau tanau ac yn gadel sbwriel gan nad oes ganddynt unrhyw beth arall i'w wneud. (Grŵp ffocws, benyw, 54, di-waith)*

*Mae'n drueni mawr pan fydd parciau a mannau cyhoeddus yn torri neu'n mynd i edrych yn ddi-raen, gan nad ydynt yn cael eu trwsio ac yna, byddant yn ddolur llygad. Yna, bydd pobl ifanc yn achosi mwy o ddifrod gan eu bod wedi torri'n barod. (Grŵp ffocws, benyw, 25, gwas sifil)*

*Rydw i wedi gweld [y dref] yn dirywio dros y blynyddoedd, mae'n colli ei chymeriad. (Grŵp ffocws, gwryw, 60, gwaith contract dim oriau)*

---

Gwnaethpwyd cwynion gan breswylwyr mewn un o'r grwpiau ffocws ynghylch y diffyg gwaith cynnal a chadw mewn parciau a mannau cyhoeddus lleol, gan esbonio 'na fydd unrhyw riant yn mynd â'u plentyn i barc lle y mae gwydr ar y llawr a phobl ifanc yn eu harddegau yn rhegi ac yn yfed'. Fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill, canmolwyd y cyngor a gwirfoddolwyr lleol am gynnal y parciau chwarae ac addurnol yn yr ardal. Mynegwyd cwynion ynghylch sbwriel a thipio anghyfreithlon mewn nifer fach o gyfarfodydd cyhoeddus hefyd.

*Mae hwn yn fater enfawr, nid pennau sigaréts yr ydym yn sôn amdanynt, ond eitemau cartref cyffredinol, symiau hurt o bethau gan nad oes modd iddynt gael gwared ohonynt yn safleoedd y cyngor...ac nid ydynt yn dymuno trafferthu.*

*(Cyfarfod cyhoeddus)*

# 5. Crynodeb

Gofynnwyd i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymoedd y De am yr hyn y maent am ei weld yn digwydd yn eu cymunedau lleol nawr ac yn y dyfodol. Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu’r dystiolaeth a ddarparwyd yn y gweithgareddau ymgysylltu, a fydd yn llywio gwaith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru. Cododd y themâu allweddol canlynol:

*Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni:*

- Mae'r cyfleoedd lleol i gael swydd yn gyfyngedig, yn enwedig swyddi sy'n cynnig rhagolygon o gamu ymlaen yn eich gyrfa.
- Nifer fawr o gontractau dim oriau, gwaith dros dro a gwaith asiantaeth.
- Mae angen cynorthwyo pobl i sicrhau cyflogaeth.
- Mae angen cymorth busnes a chanllawiau pellach ar fusnesau lleol er mwyn datblygu'r economi leol yn y Cymoedd.

*Gwell gwasanaethau cyhoeddus:*

- Cafwyd galwad i gydgysylltu gwasanaethu'n well a bod preswylwyr yn cael cymryd rhan mewn penderfyniadau.
- Roedd sialensiau trafnidiaeth yn thema allweddol ar draws yr holl weithgarwch ymgysylltu ym mhob maes, a mynegwyd pryderon gan nifer o breswylwyr ynghylch trafnidiaeth fel rhwystr sy'n atal pobl rhag manteisio ar gyflogaeth.
- Mynegwyd rhai safbwyntiau cadarnhaol am wasanaethau iechyd yn gyffredinol, ond rhai problemau ynghylch manteisio ar wasanaethau meddyg teulu; manteisio ac wasanaethau ysbyty a gwasanaethau iechyd meddwl.
- Roedd diffyg tai fforddiadwy yn gŵyn fawr, yn yr un modd â'r ffaith bod nifer o dai gwag mewn cyflwr gwael gerllaw ystadau newydd o dai anfforddiadwy.

*Themâu cyffredin am gymunedau lleol:*

- Ceir ymdeimlad o falchder ynghylch byw yn y Cymoedd.
- Bernir bod ardaloedd y Cymoedd yn ddiogel ac yn gyfeillgar, lle y ceir ymdeimlad cryf o gymuned.
- Ceir cefn gwlad prydferth a threfi deniadol, ond tybiaeth nad ydym yn manteisio i'r eithaf ar y dreftadaeth ddiwylliannol a'r adnoddau naturiol cyfoethog
- Roedd preswylwyr yn dymuno gweld canol trefi yn cael eu gwella.
- Roedd nifer yn galw am weithgarwch gwell er mwyn cynnal a chadw'r amgylchedd naturiol, er budd pobl leol ac er mwyn cynyddu twristiaeth.